

# Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Gorffennaf 2015

Rhif 457

50c

## Beicio i'r Brig!



**L** LONGYFARCHADAU mawr i Meirion Llywelyn Davies, Llanllechid ar gwblhau her enfawr - Sportiff beicio'r Quebrantahuesos ym mynyddoedd y Pyrenees.

Mae'r Quebrantahuesos wedi ei henwi ar ôl cigfran leol sy'n malu esgyrn. Yn wir, mae'r ras yn dipyn o sialens gyda 120 milltir o daith, yn cynnwys cyfanswm dringo o dros 3500 o fetrau! Ar 20 Mehefin, llwyddodd Meirion, Yr Hen Gapel Peniel, i feicio'r holl ras mewn 7 awr a 26 munud gan groesi'r llinell derfyn yn y categori aur. Roedd dros ddeng mil o feicwyr yn cymryd rhan, yn cynnwys beicwyr proffesiynol fel Miguel Indurine, cyn enillydd y Tour de France.

Roedd Meirion yn gwneud y sportiff i gasglu arian tuag at gronfa Cymdeithas Clefyd Motor Neurone. Bu farw mam yng nghyfraith Meirion i'r clefyd

ddwy flynedd yn ôl ac mae casglu arian tuag at y cyflwr yn agos iawn at galon y beiciwr a'i wraig Meleri. Mae'r cyfraniadau yn parhau i ddod i mewn ond mae Meirion eisoes wedi llwyddo i gasglu dros £1200 a hoffai ddiolch i bawb am eu cefnogaeth.



**Giorgio Zanier Brown**

Nid Meirion ydi'r unig feiciwr o'r Dyffryn sydd wedi creu argraff y mis hwn. Llwyddodd beiciwr ifanc o Riwlas, Giorgio Zanier Brown, i gwblhau taith feicio noddedig o'r Felinheli i Lanaelhaearn, gan godi dros £300 at ymgyrch gofal cancer Wrth dy Ochr. Llongyfarchiadau iddo yntau. Cewch ddarllen mwy o'i hanes yn Newyddion Rhiwlas.

**TROWCH I'R CANOL AM  
LWYTH O LUNIAU  
O SIOE DYFFRYN  
OGWEN!**



**Gwenno a Huw o'r Gerlan yn amlwg wrth eu bodd gyda'u llwyddiant yn yr adrannau Garddio a Choginio**

## Cynllun Tai Coetmor – Gohirio Eto



Daeth y cais cynllunio i godi stad 69 o dai yng Nghoetmor o flaen Pwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd ar 15 Mehefin. Gohiriwyd penderfynu arno ar argymhelliad yr Adran Gynllunio, a hynny am nad oedd gwybodaeth wedi ei derbyn am glwydfannau ystlumod yng nghoed y safle. Mae'r Adran Gynllunio eisoes wedi datgan eu bod o blaid y datblygiad. Dyma'r ail dro i'r mater gael ei ohirio oherwydd roedd bwriad i'w roi gerbron y Pwyllgor fis Medi'r llynedd. Bryd hynny hefyd nid oedd gwybodaeth hanfodol wedi dod i law. Mwy ar dudalen 10

Llais Ogwan

PANEL GOLYGYDDOL

Derfel Roberts

600965

hylaw@btinternet.com

leuan Wyn

600297

cylch@tiscali.co.uk

Lowri Roberts

600490

l.roberts11@btinternet.com

Dewi Llewelyn Siôn

07940 905181

dewision@hotmail.co.uk

Fiona Cadwaladr Owen

601592

Fiona@fowen.wanadoo.co.uk

Siân Esmor Rees

600427

sian\_esmor@btinternet.com

Neville Hughes

600853

nev\_hughes@btinternet.com

Dewi A Morgan

602440

dewimorgan@live.co.uk

Trystan Pritchard

07402 373444

trystanrp1@gmail.com

Walter W Williams

601167

waltermenai@yahoo.co.uk

SWYDDOGION

Cadeirydd:

Dewi A Morgan, Park Villa, Lôn Newydd Coetmor, Bethesda, Gwynedd LL57 3DT  602440

dewimorgan@live.co.uk

Trefnydd Hysbysebion:

Neville Hughes, 14 Pant, Bethesda LL57 3PA  600853

nev\_hughes@btinternet.com

Ysgrifennydd:

Gareth Llwyd, Talgarnedd, 3 Sgwâr Buddug, Bethesda LL57 3AH  601415

garethllwyd197@btinternet.com

Trysorydd:

Godfrey Northam, 4 Llwyn Bedw, Rachub, Llanllechid LL57 3EZ  600872

godfreydnortham@hotmail.co.uk

Y Llais Drwy'r Post:

Owen G Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN  600184

post@llaisogwan.com

Mae Llais Ogwan ar werth yn y siopau isod yn Nyffryn Ogwen:

Londis, Bethesda

Siop Ogwen, Bethesda

Cig Ogwen, Bethesda

Tesco Express, Bethesda

Siop y Post, Rachub

DYDDIADUR Y DYFFRYN

Gorffennaf

22 Cangen Plaid Lafur Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.30.

25 Bore Coffi Cronfa Goffa Tracy Smith. Cefnfaes. 10.00 – 12.00

28 Cangen Plaid Cymru Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.00.

31 Theatr Bara Caws. NO WÊ. Clwb Rygbi Bethesda am 7.30.

Awst

01 Theatr Bara Caws. NO WÊ. Clwb Rygbi Bethesda am 7.30

01 Cyngerdd Dathlu. Catrin Finch, Côr y Penrhyn, Patrick Rimes. Neuadd Ogwen am 7.30

08 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen. 9.30 – 1.30.

11 Noson Gwis Ffarm Moelyci. Gwesty'r Douglas, Bethesda. 7.30 i ddechrau am 8.00

17 Cyngerdd Côr y Penrhyn, John Ogwen, Glain Dafydd. Neuadd Ogwen am 7.00.

22 Ffair Grefftau Bethesda. Neuadd Ogwen am 9.30.

Medi

03 Sefydliad y Merched Carneddi. Cefnfaes am 7.00.

05 Bore Coffi Pwyllgor Talgai. Cefnfaes. 10.00 – 12.00

08 Noson Gwis Ffarm Moelyci. Gwesty'r Douglas, Bethesda. 7.30 i ddechrau am 8.00

12 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen. 9.30 – 1.30.

12 Bore Coffi Eglwys St Mair a St. Ann. Cefnfaes 10.00 i 12.00

17 Plygu Llais Ogwan. Cefnfaes am 6.45.

19 Bore Coffi Eglwys Crist Glanogwen. Cefnfaes. 10.00 – 12.00

26 Bore Coffi Plaid Cymru. Neuadd Ogwen 10.00 –12.00

Cyhoeddir gan Bwyllgor Llais Ogwan @Llais\_Ogwan

Cysodwyd gan Tasg, 50 Stryd Fawr Bethesda, LL57 3AN  07902 362 213

post@tasg.co.uk

Argraffwyd gan Wasg Ffrancon, Dôl Ddafydd, Bethesda LL57 3LY  01248 601669

Rhoddion i'r Llais

£25.00 Er cof annwyl am Trefor Meredith Owen, gynt o Meillionydd, Tal y Cae, Tregarth.

£5.00 Joan Griffith er cof am Gwilym Rees Griffith, Glan Ffrydlas, a fu farw 17 Mehefin 2000.

£20.00 Er cof annwyl am Delwyn oddi wrth Glen a'r plant.

£10.00 Margaret Williams, Rhos y Coed, Bethesda.

£20.00 Er cof am Geoffrey Brotherton, Llwyn Bleddyn, Rachub.

Diolch yn Fawr

Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

Gwobrau Gorffennaf

£30.00 (58) Janet J. Jones, 1 Erw Las, Bethesda.

£20.00 (193) Bronwen H. Davies, 43 Penlôn, Porthaethwy.

£10.00 (43) Lynda Pritchard, 2 Bron Arfon, Rachub.

£5.00 (36) Marian Humphreys, 34 Stryd Cefnfaes, Bethesda.

Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Bryn yn swyddfa'r deillion, Bangor

01248 353604

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd  601415

Neville Hughes  600853

Archebu Llais Ogwan drwy'r Post

Gwledydd Prydain - £20

Ewrop - £30

Gweddill y Byd - £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN

post@llaisogwan.com

01248 600184

Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Golygydd y Mis

Golygwyd y mis hwn gan Siân Esmor Rees.

Golygyddion mis Medi fydd:

Lowri Roberts,

8 Pen y Ffriddoedd, Tregarth, LL57 4NY (01248 600490)

l.roberts11@btinternet.com

a Walter W. Williams,

14 Erw Las, Bethesda, LL57 3NN. (01248 601167)

waltermenai@yahoo.co.uk

Pob deunydd i law erbyn dydd Mercher, 2 Medi, os gwelwch yn dda. Plygu nos Iau, 17 Medi, yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

Llyfrgell Bethesda Sialens Ddarllen Haf 2015

A yw eich plentyn yn chwilio am rywbeth i'w gadw'n brysur dros wyliau hir yr haf?

Beth am iddo gymryd rhan yn her Torri Pob Record, Sialens Ddarllen Haf 2015? Mae'n digwydd ym mhob un o lyfrgelloedd Gwynedd dros y gwyliu tan 5 Medi.

Mae'r cyfan yn rhad ac am ddim, a'r oll sydd raid ei wneud yw cofrestru yn eich Llyfrgell a darllen o leiaf chwe llyfr o'ch dewis gan gasglu sticeri a gwobrau bach wrth fynd! Bydd pob plentyn yn derbyn poster lliwgar ynghyd â thystysgrif cwblhau a medal os llwyddir i gwblhau'r sialens! Bydd thema eleni yn gysylltiedig â Guinness World Records™, sy'n dathlu ei ben-blwydd yn 60 yn 2015.

Felly beth amdani? A ydych chi'n barod am yr her? Dewch draw i Lyfrgell Bethesda i gychwyn eich Sialens Ddarllen Haf ac i ddarganfod stôr o lyfrau a straeon difyr a chyffrous!

Mae'r Sialens Ddarllen Haf yn cael ei gynhyrchu gan The Reading Agency mewn cydweithrediad â Guinness World Records™ ac yn cael ei darparu gan lyfrgelloedd.

CALENDR LLAIS OGWAN 2016

Lluniau ar gyfer Calendr 2015 i mewn cyn

DIWEDD GORFFENNAF 2015

os gwelwch yn dda.

Bydd unrhyw lun o ardal Dyffryn Ogwen (gan gynnwys y Carneddau a'r Glyderau) yn cael eu hystyried.

Lluniau (yn ddigidol, os yn bosibl) i

Dafydd Fôn

deifon@yahoo.co.uk

Annwyl Olygydd

Annwyl Olygydd,

Mae Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd – prosiect dan arweiniad Jane Kenney - yn hel gwybodaeth am safleoedd a ddefnyddiwyd yn ystod y Rhyfel Mawr.

Mae sôn fod y 'Ffatri Margarine' yn Abergwyngregyn wedi cael ei defnyddio yn y cyfnod yma. Oes gan unrhyw un o ddarllenwyr Llais Ogwan unrhyw wybodaeth bellach am hyn, neu am y Maes Awyr yn Glan y Môr Isaf, Llanllechid – rhwng Bangor ac Aber? Buasem yn ddiolchgar iawn am unrhyw wybodaeth sydd gennych am y ddau leoliad yma yn benodol.

Os oes gennych luniau neu wybodaeth a allai fod o ddiddordeb i ni, cysylltwch â Jane Kenney os gwelwch yn dda ar 01248 366959 neu ar e-bost: [WWI@heneb.co.uk](mailto:WWI@heneb.co.uk) . Neu ysgrifennwch at: WWI, Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd, Craig Beuno, Ffordd y Garth, Bangor, Gwynedd, LL57 2RT.

Diolch.

Rhys Mwyn

O.N. Os hoffech wybod rhagor am y prosiect, ewch i: <http://www.heneb.co.uk/ww1/index.html>

Annwyl Olygydd,

Nodyn i'ch atgoffa am gynhyrchiad newydd Bara Caws, sef y sioe glybiau 'No Wê'. Barry 'Archie' Jones, sy'n wreiddiol o Rachub, sydd wedi ysgrifennu'r sioe, a fo sy'n ei chyfarwyddo hefyd. Mae nifer o'r actorion yn byw'n lleol, felly gobeithio y cewch chi gyfle i ddod draw i'w cefnogi. Mae'r sioe'n addas i rai dros 18 mlwydd oed yn unig.

Mae taith 'No Wê' wedi dechrau a byddwn yng Nghlwb Rygbi Bethesda nos Wener a nos Sadwrn, 31 Gorffennaf a 1 Awst – tocynnau ar gael gen i ar 01248 601526 neu Huw Waen ar 01248 602480, a'r elw'n cael ei rannu rhwng Caban Gerlan ac Apêl Eleanor Jones.

Bydd y daith yn diweddu yn Neuadd Bentref Meifod (wythnos Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn a'r Gororau) o nos Fawrth 4 Awst hyd at nos Wener 7 Awst. Drysau'n agor am 7.00 a thocynnau i'w cael yn Caffi'r Theatrau yn y Pentref Drama ar faes yr Eisteddfod wythnos yr Ŵyl, neu drwy ffonio 01286 675869/07880 031302. Mi fyddan nhw ar werth wrth ddrws Neuadd Bentref Meifod yn ogystal – os na fyddan nhw i gyd wedi eu gwerthu! Gobeithio y bydd modd i chi ymuno â ni.

Cofion gorau,  
Linda Brown, Bara Caws

Cyfeillion Ysgol y Moelwyn  
17 Lôn y Bryn  
Bangor.

Annwyl Olygydd,

A gawn ni, drwy eich papur, estyn gwahoddiad i gyn-ddisgyblion a chyfeillion Ysgol y Moelwyn, Blaenau Ffestiniog, ddod i aduniad yn Eisteddfod Meifod? Byddwn yn cyfarfod ym Mhabell y Cymdeithasau 2, ddydd Mawrth 4ydd Awst o 9.30 y bore. Cawn sgwrs gan y prifathro, Dewi Lake, bydd Gwyn Thomas yn coffau Dr. Meredydd Evans, a chyflwynir gwobrau'r Gymdeithas i ddisgyblion o'r ysgol.

Yn gywir  
Jennifer Thomas a Sian Arwel Davies

Darlith Goffa Dafydd Orwig 2015



Cynhaliwyd y ddarlith flynyddol yn Llyfrgell Bethesda nos Lun, 8 Mehefin, gyda'r Prifardd Ieuan Wyn yn llywyddu.

Angharad Price oedd y darlithydd gwadd eleni, a'i thestun oedd "T. H. Parry Williams, yr Almaen a'r Rhyfel Byd Cyntaf". Noson ddiddorol dros ben gyda'r ddarlith yn llawn gwybodaeth newydd i'r gwrandawyr!

Yr Eglwys Newydd  
CAERDYDD

Annwyl Gyd-eisteddfodwyr,

Eleni byddwn yn cynnal Eisteddfod y Cymoedd am y nawfed flwyddyn yn olynol.

Cynhelir yr eisteddfod yn Ysgol Lewis i Ferched, Ystrad Mynach eleni eto. A'r dyddiad yw nos Wener, 16eg o Hydref gan ddechrau am 5.00 o'r gloch.

Y beirniaid eleni yw:

Osian Rowlands ac Aled John (Cerddoriaeth); Ifan a Margaret Roberts (Llefaru a Llenyddiaeth Ieuencid); Llion Roberts (Llenyddiaeth Agored); Marie Evans (Dawns); Gwyneth a Gwyn Davies (Ffotograffiaeth).

Y cyfeilydd fydd Bethan Phillips.

Byddai Ysgrifenyddion yr Eisteddfod yn barod iawn i anfon mwy o fanylion atoch.

Cysylltwch â Gwilym ac Eirlys Thomas, Pen Caer, 73 Heol Pengam, Ystrad Mynach, Hengoed, CF82 8AB neu ar 01443 812820 neu ar [gwilymt@sky.com](mailto:gwilymt@sky.com)

Mae croeso mawr yn eich disgwyl chi yn Ystrad Mynach nos Wener, 16eg o Hydref.

Yn gywir,  
R. Alun Evans  
Cadeirydd Eisteddfod y Cymoedd

Oriel Ogwen yn Agor

Wrth i'r Llais fynd i'r wasg roedd oriel gelf newydd sbon ar fin agor ym Methesda.

Mae Oriel Ogwen wedi ei lleoli ar lawr isaf Siop Ogwen, drws nesaf i Neuadd Ogwen, a'r artistiaid cyntaf i arddangos eu gwaith yno yw'r ffotograffydd o Fethesda, Rhys Parry a'r dylunydd amlgyfrwng o Ddinorwig, Catrin Griffiths. Bydd eu harddangosfa o ffotograffau, celf serameg a gwaith amlgyfrwng i'w gweld o 18 Gorffennaf hyd 14 Awst.

Pwrpas yr Oriel yw rhoi cyfle i artistiaid lleol a chenedlaethol gael llwyfan creadigol ym Methesda. Mae'n fenter gydweithredol ar y cyd rhwng Neuadd Ogwen a chwmni Partneriaeth Ogwen. Ymhlith yr artistiaid eraill y mae'r trefnwyr yn gobeithio eu denu yno yn y dyfodol y mae Pete Fowler, Iwan Bala a Meirion Ginsberg.

Siop Ogwen, Bethesda  
(drws nesaf i'r Neuadd)

Dyma le hwylus i chi adael eitemau ar gyfer Llais Ogwan

newyddion, lluniau, hysbysebion ac ati.

Dim ond eu rhoi mewn amlen wedi ei gyfeirio at Llais Ogwan (Cofiwch nodi eich enw a'ch rhif ffôn.

Gallwch brynu copi o'r Llais yno hefyd.



# Bethesda

**Fiona Cadwaladr Owen,**  
Bryn Meurig Bach,  
Coed y Parc, Bethesda,  
LL57 4YW ☎ **601592**

**Joe Hughes,**  
Awel y Nant,  
Ffordd Ffrydlas, Bethesda  
☎ **601902**

### Ysbyty

Bu sawl un yn yr ysbyty yn ddiweddar a da deall fod rhai ohonynt gartref erbyn hyn. Cofion cynnes atoch i gyd a gwellhad buan.

Mr Gareth Jones, Bryn Caseg; Mrs Carol Owen, Maes-y-garnedd; Mrs Freda Adams, Abercaseg; Mr John Hughes, Bontuchaf; Mrs Eleanor Jones, Bryn Caseg; Mrs Linda Elderkin, Maes-y-garnedd.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn ag Albert a Marion Humphreys a’r teulu, Stryd Cefnfaes yn eu profedigaeth o golli ei chwaer-yng-nghyfraith ym Mangor ar 8 Mehefin, sef y ddiweddar Mrs Patricia E. Humphreys.

Cydymdeimlwn â Mrs Muriel Williams a’r teulu, Glanffrydlas yn eu profedigaeth o golli chwaer a modryb a oedd yn 100 oed. Cofion cynnes atoch – gobeithio bod yr iechyd yn weddol.

Hefyd anfonwn ein cydymdeimlad at deulu’r diweddar Mr Stephen Hughes, Llys Arthur, Bangor, a fu farw’n sydyn yn ei gartref ar 21 Mehefin yn 53 oed, sef Anwen, Eira, Ianto, Iestyn, Joan, Dei, Elsa, Alan, Philip, Sandra a Rita.

### Taid a Nain

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Alan Owen, Bryntirion, ar yr achlysur hapus o ddod yn daid a nain i fachgen bach, ail fab i Mr a Mrs David Owen, Llanllechid. Llongyfarchiadau hefyd i Mrs Roma Griffiths, Garneddwen ar ddod yn hen-nain unwaith eto.

### Marwolaeth

Ar 6 Mehefin, yn ei gartref, 6 Maesygarneidd, yn 77 oed, bu farw Mr William Williams (Billy) priod annwyl Mrs Olive Williams, tad gofalus i Gwyn a Michael a thad yng nghyfraith Keilly. Roedd yn daid hoffus i Anna, Beca, Enoc, Casi a Begw ac yn frawd i Nancy, Owie a’r ddiweddar Betty. Roedd yn aelod o Glwb Criced a Bowlio Bethesda ac Eglwys Crist Glanogwen ac roedd Billy wrth ei fodd yn cael sgwrs â phawb.

Cynhaliwyd ei angladd fore Sadwrn 13 Mehefin gyda Gwasanaeth yn Eglwys Crist, Glanogwen, ac Amlosgfa Bangor, lle daeth llu o deulu a chyfeillion ynghyd. Y Parchedig Ganon Idris Thomas, Deiniolen oedd yn gwasanaethu, gyda Mrs Christine Edwards wrth yr organ. Claddwyd ei lwch ym mynwent Coetmor. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch i gyd fel teulu.

Yn Ysbyty Gwynedd ar 7 Mehefin, wedi salwch hir, bu farw Mrs Jean Elizabeth Griffiths (Jean Bullock) 13 Maesygarneidd, yn 64 oed.

Priod y diweddar Mr Owen Glyn Griffiths, mam annwyl Andrew, Stephen, Kevin a Sheryl. Mam-yng-nghyfraith, nain a hen nain, a chwaer Mrs Carol Owen, Maesygarneidd a Mr a Mrs Dafydd Bullock, Rhos Elfed. Cynhaliwyd gwasanaeth ddydd Llun 15 Mehefin yn amlosgfa Bangor a chladdwyd ei lwch fore Mawrth ym mynwent Eglwys Crist, Glanogwen. Gwasanaethwyd gan y Parchedig Dafydd Coetmor Williams.

Cydymdeimlwn â chwi i gyd fel teulu.

### Babi Newydd

Llongyfarchiadau i Angharad ac Elfed, Glanffrydlas ar enedigaeth eu mab Steffan Gwern, brawd bach i Tomos Jac a Philip ac ŵyr i Mr a Mrs O. J. Evans.

### Pen-blwydd arbennig

Erbyn i’r rhifyn hwn o’r Llais ymddangos bydd Mrs Margaret Jones, Tŷ Coetmor, Brynbella, wedi dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed. Rydym yn ei llongyfarch yn fawr, yn anfon ein cyfarchion iddi ar gyrraedd y pen-blwydd arbennig hwn, ac yn dymuno’r gorau iddi i’r dyfodol. Pob bendith ichi, Mrs Jones.

## Yr Eglwys Unedig

Yn y Cyfarfod Gweddi ddechrau’r mis, Minnie oedd yn trefnu gyda Mair a Joe yn ei chynorthwyo. Diolch o galon iddynt.

Ymddiheurwn i Hannah Cook am hepgor ei henw o’n llongyfarchiadau ar ei llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd. Da iawn Hannah, sydd wedi dysgu Cymraeg ac yn un o ffyddloniaid y Clwb nos Fawrth.

Menai oedd yn trefnu’r oedfa fore Sul, 28 Mehefin. Roedd yn oedfa arbennig iawn gyda Dennis, Joe a Walter yn ei chynorthwyo. Diolch, Menai ac i’r dynion am eu cyfraniad.

Anfonwn ein cofion at Mrs Muriel Williams, Glanffrydlas yn yr ysbyty. Mae’r blaenoriaid yn dal i gyfarfod yn fisol i drafod a phenderfynu popeth sydd ei angen ac mae’r presenoldeb yn 100% yn wir.

### Trip yr Ysgol Sul a’r

**Clwb nos Fawrth**  
Aethant i’r Bala ar ddiwrnod braf, sef 28 Mehefin. Ymwelsant ag arddangosfa Mary Jones yn Llanycil, oedd yn werth chweil, cyn mynd i wersyll yr Urdd, Glan-llyn ac ar ymweliad â Thryweryn – diwrnod da iawn.

Diolch i’r trefnwyr am drefnu diwrnod i’w gofio.

Rydym yn dal i gyfarfod foreau Iau am baned a sgwrs. Croeso i bawb ddod atom.

## Yr Eglwys Unedig

### Cyhoeddiadau

Awst 2 Parch Geraint Roberts  
Awst 9 Mr J.O. Roberts 10 y bore  
Awst 16 Miss Nerys Jackson

Croeso cynnes i bawb gan ein bod yn dal i gael oedfaon arbennig iawn.

## Ymwelydd o fri



Galwodd Rupert Moon, y cyn-chwaraewr rygbi rhyngwladol, yng Nghaffi Fitzpatrick ddiwedd Mehefin. Ar y chwith mae Elena Fitzpatrick gyda Lliwen ar y dde.

## Eglwys Crist, Glanogwen

### Cynhelir Gwasanaethau fel a ganlyn:

**Sul Cyntaf pob mis**  
Cymun Bendigaid – 8.00am  
Boreol Weddi – 11.00am

**Ail a thrydydd Sul pob mis** - Cymun Bendigaid Cymraeg – 11.00am  
**Pedwerydd Sul pob mis** - Cymun Bendigaid dwyieithog – 11.00am  
**Pumed Sul** - Gwasanaeth ar y cyd gyda Mynydd Llandegai a Phentir (Lleoliad i’w gyhoeddi)

Pob bore Mercher am 10.30am - Cymun Bendigaid

Gweithgareddau Codi Arian i’w trefnu  
Sêl Cist Car – Mis Gorffennaf  
Noson Caws a Gwin yng Ngwesty Douglas – mis Awst  
Bore Coffi, Cefnfaes – mis Medi  
Manylion i ddod.

Mae nifer o aelodau yn cwyno oherwydd amrywiol anhwylderau. Dymunwn adferiad llwyr a buan i chi gan fawr obeithio y byddwch cyn hir yn medru mynychu rhai o’r gwasanaethau.

## Capel Bethania

### Gwasanaethau

**19 Gorffennaf**  
Parchg. Gwynfor Williams  
**Mis Awst** Dim oedfaon  
**06 Medi** Mr. Thomas A. Williams  
**20 Medi** Parch. Gwynfor Williams

**Oedfaon am 5.30 o’r gloch**  
**Croeso cynnes i bawb**

## Nant Ffrancon

### Capel Nant y Benglog

**Gorffennaf**  
19 Yng ngofal Robat Thomas  
26 Y Parchg. Carys Ann

**Dim oedfaon ym mis Awst.**

**Oedfaon am 2.00 o’r gloch.**  
**Croeso cynnes i bawb**

## Carneddi

**Derfel Roberts**  
Llys Artro, Carneddi  
☎ 600965  
hylaw@btinternet.com

### Bwncath a’r Boncathod

Roedd tafarn y Siôr, Carneddi yn llawn dop o bobl yn aros i gael gwrando ar y grŵp gwerin-roc Bwncath ar nos Sadwrn olaf mis Mehefin. Doedd yr un o’r gynulleidfa wedi sylweddoli y bydden nhw’n cael set slei-bach, dirybudd gan barti canu’r Boncathod yr un noson! Canodd y genod o’r Dyffryn nifer o ganeuon digyfeiliant i gynhesu’r gynulleidfa, cyn i Gwilym Bowen Rhys, Elidir Glyn a gweddill Bwncath ddod i ddiddanu.

# Rhiwlas

**Iona Jones**  
17 Bro Rhiwen, Rhiwlas  
☎01248 355336

Cydymdeimlo

**Mr Alwyn Jones**  
Ar ddechrau Mehefin daeth profedigaeth i ran Miss Jean V Jones, Hafod Lon, bu farw ei brawd Mr Alwyn Jones, Raca, yn sydyn yn Ysbyty Gwynedd. Doedd dim ond rhyw saith mis ers iddo golli ei wraig, Sara. Roedd Alwyn yn adnabyddus ym myd Marchnad y Ffermwr ac yn mynychu pob un ohonynt. Cydymdeimlwn â Jean, ei chwaer a'i brawd a'r teulu.

**Mr Griffith Owen**  
Ychydig wythnosau wedi iddo ddathlu ei ben blwydd yn 90 oed bu farw Mr Griff Owen Fron Deg yn dawel yn Ysbyty Gwynedd - gŵr Meirwen am 67 o flynyddoedd, tad Einir a thad yng nghyfraith Hefin. Roedd yn enedigol o Rachub, yn un o dri brawd, ond fe dreuliodd y rhan helaeth o'i oes yn Rhiwlas.

Rhodddwyd teyrnged iddo gan ei nith Sheelagh a chawsom hanesion difyr amdano. Bu yn y llynges adeg y rhyfel a chyfarfu â'i frawd, Arthur ar y cei yn Naples. Tybed beth oedd testun eu sgwrs y diwrnod hwnnw?

Roedd yn ymddiddori mewn pêl-droed a chanu a theithio. Bu'n aelod o Gôr Wili Parry, Gerlan, Côr y Penrhyn ac Wythawd Tryfan. Bu'n chwarae pêl-droed i Llechid Celts a Rhiwlas Tigers a bu'n gefnogwr brwd i Everton a Chlwb Pêl-droed Dinas Bangor. Roedd o a Meirwen yn mynychu Eisteddfod yr Urdd, yr Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod Llangollen am flynyddoedd lawer, yn y garafan wrth gwrs.

Mae'n debyg i'r eisteddfota gychwyn pan ddechreuodd Einir gystadlu ac wedyn doedd dim pall ar y teithio o 'steddfod i 'steddfod. Bu'n aelod ffyddlon yng nghapel Pïsgah ac yn arweinydd y gân yno. Roedd yn gweithio ym myd yswiriant amaeth ac wedi ymddeol, un o'i bleserau oedd mynd â chŵn Einir am dro a mwynhau sgwrs ar Lôn Castell.

Daeth tyrfa gref i'r angladd yn Amlogsgfa Bangor gyda'r Parch Gwynfor Williams yn gwasanaethu a gor-nith iddo, Dr. Bethan Jones yn darllen Salm 23. Cydymdeimlwn â chi fel teulu yn eich colled drist.

**Diolch**  
Dymuna Meirwen, Einir, Hefin a'r teulu ddatgan eu diolch diffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli priod a thad amhrisiadwy. Diolch am yr holl gardiau, ymweliadau a galwadau ffôn ac am y rhoddion hael er cof am Griff tuag at Tŷ Gobaith ac Ambiwllans Awyr Cymru. Diolch hefyd i'r Parchedig Gwynfor

Williams am ymweld â Griff yn ffyddlon yn yr ysbytai, ac am ei wasanaeth yn yr Amlogsgfa. Diolch yn arbennig i Stephen Jones am ei drefniadau trylwyr.

**Casglu arian at achos da**  
Y mae Ryan Ninness, Bronnydd yn gweithio yn siop elusen Cancer UK ym Mangor a phan glywodd am daith gerdded nodedig wedi'i threfnu gan yr elusen, roedd am fod yn rhan o'r ymgyrch. Roedd y daith yn Llangollen yn 33 milltir o hyd ac roedd 250 o gerddwyr yn cymryd rhan. Mae'n debyg fod rhannau o'r daith yn eithaf caled ac fe lwyddodd i gwblhau'r cyfan mewn pedair awr ar ddeg a hanner.

Da iawn ti Ryan, roedd yn dipyn o gamp. Y mae Ryan hefyd am ddiolch i'r rhai a wnaeth ei noddi.

Un arall a fu'n casglu arian at achos da yw Giorgio Zanier Brown, Bron y Waun a fu'n beicio dros yr elusen "Wrth dy Ochr", ymgyrch gofal canser ar gyfer Awyr Las, Elusen GIG Gogledd Cymru. Mae Mike Peters, prif ganwr y grŵp pop Yr Alarm yn flaenllaw yn yr ymgyrch yma ac mae'n awyddus i godi £351,120.

Pam y swm yma o arian? Dyma'r nifer o gamau o Ysbyty Gwynedd i Ysbyty Glan Clwyd i Ysbyty Maelor, Wrecsam.

Yn 2014 cerddodd Giorgio i gopa'r Wyddfa i godi arian, eto at apêl Mike Peters, a llwyddodd i gasglu £100. Taith feicio nodedig o'r Felinheli i Lanaelhaearn oedd ei ddewis eleni, a llwyddodd i godi £310 tuag at yr elusen. Yn ogystal roedd Giorgio, gyda help Mam, wedi trefnu "caffi" yn yr ysgol tuag at yr apêl a chodi £120. Hefyd aeth côr yr ysgol i ganu yng ngig "Snowdon Rocks". Un o'r eitemau ganddynt oedd rap a gyfansoddodd y plant i godi ymwybyddiaeth o ganser a chawsant ganmoliaeth gan Mike Peters.

Mae Giorgio am ddiolch i bawb a fu'n gefnogol i'w ymgyrch. Da iawn ti, Giorgio am fod mor barod i gasglu arian at achosion da. Y mae'n gadael Ysgol Rhiwlas eleni ac yn edrych ymlaen at fynd i Ysgol Dyffryn Ogwen.



Giorgio a Mike Peters

**Graddio**  
Llongyfarchiadau i'r canlynol. Derbyniodd Heledd o Gae Glas radd 2.1 yn y Gyfraith, Sioned o

Garfan 2.1 mewn Troseddeg, a Daron o Garreg y Gath, Ddosbarth 1af mewn Troseddeg. Rydym yn falch iawn o'ch llwyddiant ac yn dymuno'n dda ichi yn y dyfodol. Bu'r tair yn mynychu Ysgol Rhiwlas, Ysgol Dyffryn Ogwen a Phrifysgol Bangor.

Derbyn Tystysgrif



Gareth efo'i dystysgrif

Y mae Gareth Williams, Caeau Gleision, yn aelod ffyddlon yng Nghapel Pïsgah a bu'n casglu arian tuag at y Genhadaeth Dramor am flynyddoedd. Yn ddiweddar derbyniodd dystysgrif am ei ddygnwch. Mae Gareth bob amser yn gymwynasgar ac yn barod i helpu yn y gymuned.

**Cael anaf Brysiwch wella**  
Fe syrthiodd Mrs Mair Roberts yn ei chartref yn ddiweddar a thorri ei garddwrn. Brysiwch wella, Mair.

**Llongyfarchiadau**  
Pleser yw llongyfarch Einir a Gwyn Williams, Cefn Coch ar ddod yn Nain a Thaid am y tro cyntaf. Ganwyd Steffan Gwern i Elfed ac Angharad ac maent am ddiolch am y cardiau a'r rhoddion hael i'r bychan.

**Adref o'r ysbyty**  
Mae Rhys Owen, Alaria, bellach adref o'r ysbyty a braf yw ei weld eto yn cerdded ar hyd Lôn Plas gyda Morsi'r ci.

**Priodas**  
Llongyfarchiadau i Gemma a Connor, 22, Caeau Gleision ar eu priodas yn ddiweddar. Pob dymuniad da ichi yn y dyfodol.

**Calendr Llais Ogwan**  
Does dim llun o'r ardal wedi bod yn y Calendr ers tro, felly chi ffotograffwyr brwd, beth am anfon lluniau i'w hystyried ar gyfer 2016? Mae angen y lluniau erbyn diwedd mis Gorffennaf, manylion ar gael ar dudalen flaen rhifyn Mehefin.

Clwb Rhiwen

Y mae John Austin, sy'n aelod o'r clwb, yn wirfoddolwr ac yn yrrwr trên gyda Rheilffordd yr Uchelidir ym Mhorthmadog. Trefnodd inni fynd ar y trên a chawsom bnawn difyr yno. Nid yw'r daith yn hir ond roedd yn bnawn braf a golygfeydd ardderchog i'w gweld wrth fynd yn y trên. Ar y ffordd yn ôl cawsom saib i ymweld â'r amgueddfa sy'n gysylltiedig â'r rheilffordd ac am le difyr, a'r gwirfoddolwyr wedi gweithio'n galed i wneud yr arddangosfa mor ddeniadol.

Roedd John wedi trefnu te inni hefyd yn y caffï a diolch iddo am wneud y trefniadau. Roedd pawb o'r fam inni gael pnawn difyr dros ben.

**Cyfarfod Mehefin 17**  
Cafwyd paned a sgwrs, a hel atgofion am y daith i Borthmadog ac arweiniodd hynny at drafodaeth ar deithio'n gyffredinol a rhannu profiadau. Ann a Dilys wnaeth y te a Gareth enillodd y raffl, mae'n un lwcus iawn!

## Pentir

**Anwen Thomas,**  
Min yr afon, 11 Rhydygroes, Pentir  
☎ 01248 355686

### Eglwys St. Cedol, Pentir

**Cofion**  
Anfonwn ein cofion at Pam Jones, Llanddeiniolen, a Mair Roberts, Rhiwlas. Mae'r ddwy yn gwella gartref ar ôl cyfnod yn Ysbyty Gwynedd yn dilyn damwain yn eu cartrefi. Brysiwch wella eich dwy.  
  
Hefyd anfonwn gofion cynnes at Mrs Janet Rees, Pentir gan nad yw'n dda ei hiechyd. Pob bendith i chi Janet.  
  
**Cydymdeimlad**  
Fel Eglwys anfonwn ein cydymdeimlad at Anwen yn ei phrofedigaeth o golli mam annwyl yn Mrs. Averill Thomas, Alban, Rhyd Y Groes, Pentir. Anwen, derbyn ein cydymdeimlad dwysaf.

**Gwasanaethau'r Sul**  
Bydd y gwasanaethau a ganlyn yn cael eu cynnal am 9.45 y bore, mae croeso cynnes i chi ymuno yn y gwasanaethau:  

|         |                  |
|---------|------------------|
| 19.7.15 | Cymun Bendigaidd |
| 26.7.15 | Boreol Weddi     |
| 2.8.15  | Cymun Pawb       |
| 9.8.15  | Boreol Weddi     |
| 16.8.15 | Cymun Bendigaidd |
| 23.8.15 | Boreol Weddi     |

**Clwb 100 Mis Mehefin 2015**  

|                             |
|-----------------------------|
| 1af Rhif 63                 |
| Eira Crocombe, Tregarth     |
| 2ail Rhif 54                |
| Alison Wynn Ellis, Tregarth |
| 3ydd Rhif 53 Llanddeiniolen |

# Y Gerlan

**Ann a Dafydd Fôn Williams,**  
14/4 Stryd y Ffynnon,  
Gerlan ☎ **601583**

### Adref o’r ysbyty

Rydym yn falch dros ben o weld Dafydd Morris, Y Garnedd Uchaf, Abercaseg, adref, ac yn gwella, wedi treulio cyfnod estynedig mewn gwahanol ysbytai. Ein dymuniadau gorau iti, Dafydd, am wellad llwyr a buan oddi wrthym oll yn yr ardal.

### Diolch

Dymuna Dafydd Morris, Y Garnedd Uchaf, ddiolch am bob dymuniad da a dderbyniodd tra mewn ysbytai, ac wedi hynny. Diolch o galon i bawb!

### Pen-blwydd

Rydym yn dymuno pen-blwydd hapus i Mark Speddy, Stryd y Ffynnon, ar ddathlu ei ben-blwydd yn 21 ddechrau Gorffennaf. Pob dymuniad da iti, Mark, gobeithiwn iti fwynhau’r diwrnod yn fawr.

### Cydymdeimlo

Rydym yn estyn ein cydymdeimlad i Joan Edwards, Glanrafon, a’r teulu, yn eu profedigaeth o golli nai Mrs Edwards, y diweddar Geoffrey Brotherton, oedd yn trigo yn Llwyn Bleddyn, Rachub.

### Pen-blwydd arbennig

Llongyfarchiadau mawr i Gwenno Jones, Y Wern, ar ddathlu ei phen-blwydd yn hanner cant ym mis Mehefin. Pen-blwydd hapus oddi wrthym i gyd, Gwenno, a phob dymuniad da i’r dyfodol.

### Nain

Llongyfarchiadau mawr i Angela Davies, Rallt Isaf, ar ddod yn nain unwaith eto. Ganed mab, Cai Richard, i’w merch Catherine a’i phartner, Ashley, a chafodd Dylan frawd bach. Rydym yn siŵr eich bod fel teulu wedi gwirioni efo’r babi newydd. Pob dymuniad da i chi i gyd.

### Diolch

Dymuna Ann Williams, Stryd y Ffynnon, trefnydd Raffl Fawr y Sioe Amaethyddol, ddiolch i bawb a fu’n cynorthwyo i wneud y raffl yn gymaint o lwyddiant. Diolch i’r rhai fu’n gwerthu tocynnau ddiwrnod y sioe, a chyn hynny, ac i bawb fu’n gweithio’n galed ar y diwrnod. Diolch yn fawr iawn i chi i gyd.

### Llongyfarchiadau

Rydym yn llongyfarch pawb o’r Gerlan a fu’n cystadlu, neu a fu’n llwyddiannus mewn unrhyw fodd, yn y Sioe Amaethyddol. Da iawn, bob un ohonoch.

### Gwyliau hapus

Gan na fydd y Llais yn ymddangos ym mis Awst rydym yn dymuno haf hapus i bawb o’r ardal. Hefyd, dymunwn haf llwyddiannus iawn i blant a phobl ifanc yr ardal fydd wedi cael canlyniadau eu harholiadau cyn y daw’r Llais allan eto. Pob hwyl i chi i gyd!

## O fan i fan – yn y fan

Mae Dave a Georgina Roberts, Ciltwllan yn dipyn o deithwyr. Maen nhw wrth eu boddau’n teithio yn eu fan VW Transporter. Yn ddiweddar mi fu’r ddau ar daith i ben uchaf gwledydd Prydain, i ynysoedd Shetland, gan dreulio tair wythnos i gyd ar y lôn.

Roedd tad Dave, Hefin Roberts, yn aelod o’r Awyrlu yn ystod yr Ail Ryfel Byd ac mi gafodd ei leoli yn Sullom Voe ar un o’r ynysoedd. Roedd Dave wedi clywed llawer o hanesion am y cyfnod hwnnw gan ei dad, ac roedd yn awyddus i weld y lle drosto’i hun.



Dyma lun o Dave a Georgina yn y man mwyaf gogleddol y medwrch chi yrru iddo fo yn ynysoedd Prydain, sef Unst yng ngogledd Shetland. Y tu ôl iddyn nhw mi welwch chi Ynys Muckle Flugga, y lle mwyaf gogleddol ym Mhrydain.

I roi rhyw syniad i chi o bellter yr ynysoedd, roedd y siwrnai draw yno ar fferi yn un 14 awr – a hynny ar ôl dau ddiwrnod o deithio o’r Gerlan. Mae Shetland ar yr un llinell ledred (latitude) â St Petersburg, Rwsia, Hudson’s Bay, Canada a Gogledd Helsinki yn y Ffindir, sef 60 gradd.

Mae Dave a Georgina wedi dechrau trafod y trip nesa’n barod, ond yn methu penderfynu rhwng Norwy a Morocco. Hwyl iddyn nhw ar y trefnu!

## Llandygái

**Iona Wyn Jones,**  
Dyma Fo,  
16 Pentref Llandygai, Bangor,  
LL57 4HU  
☎ 01248 354280

**Eirlys Edwards,**  
Sŵn y Coed, 23 Pentref  
Llandygai, Bangor,  
LL57 4HU  
☎ 01248 351633

### Croeso

Mae Llais Ogwan yn falch o groesawu Iona Wyn Jones ac Eirlys Edwards yn ohebwyd dros ardal Llandygai. Nhw hefyd fydd yn gofalu am werthiant y Llais yn yr ardal. Diolch yn fawr iddynt am ddod i’r adwy!

### Ethel yn Ymddeol

Ar ôl gwasanaeth maith a chlodwiw i’r Llais yn gofalu am golofn Llandygai o fis i fis dros 12 mlynedd, mae Mrs. Ethel Davies,

Pennard, Pentref Llandygai, wedi penderfynu ymddeol o’r gwaith. Gwaith yr oedd yn ei wneud mor gydwytbodol a thrylwyr. Byddwn yn gweld eich colli Ethel! Byddwn yn ei cholli hefyd fel gwerthwraig Llais Ogwan yn ardal Llandygai.

Dymunwn yn dda i chi Ethel, pan fyddwch yn derbyn triniaeth yn yr ysbyty yn y dyfodol agos.

### Graddio

Llongyfarchiadau i Rees Evans, Penrhyn Cottage, ar ennill gradd BA gydag Anrhydedd mewn Cynhyrchu Ffilmiau. Pob lwc yn y dyfodol.

### Anffawd

Bu Dei Edwards, 21 Pentre Llandygai, yn anffodus wrth arddio – fe dorrodd ei fraich. Gwellhad buan! Gair o gyngor: mwy o eistedd yn yr ardd - a llai o arddio Dei!

### Marwolaeth

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Mrs Eva Arridge ar 28 Mai ym Mryn Llifton, Bangor Uchaf, gynt o Ffordd Islwyn, yn 93 mlwydd oed. Cynhaliwyd gwasanaeth cyhoeddus yn y Gadeirlan, Bangor

ar 15 Mehefin a’r gladdedigaeth yn Amlosgfa Bangor.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Susan, Diane, Timothy a’u teuluoedd yn eu hiraeth. Bu’r Parchedig Leonard Arridge yn ffyddlon iawn yn Eglwys Sant Tegai yn gwasanaethu pan oeddem yn aros am ficer llawn amser a byddai Eva yn dod gydag ef – dau gyfeillgar iawn.

### Gwaeledd

Ein dymuniadau gorau i bawb sy’n wael ac wedi eu caethiwo i’w cartrefi – Ernie a Nerys Coleman, Beryl a Jim Hughes, Dr Pam Jones, Moyra Muir, Cassie Tindall, Anne Wheldon, Betty Williams, a Dorothy Proudley-Williams – rydym yn meddwl amdanoch i gyd.

### Arholiadau

Pob lwc i bawb sy’n disgwyl am ganlyniadau TGAU a Safon Uwch yn ystod mis Awst a llwyddiant mawr i chi i’r dyfodol.

### Bingo Llandygái

Mae Pauline Edwards yn diolch o galon i Beryl Williams, Pen-y-bryn, Bethesda am fod mor garedig a gwerthu ticedi raffl er budd y Bingo yn Neuadd Talgai. Diolch hefyd i bawb a ddaeth i’r bore coffi; gwnaed elw o £95. Bydd hyn yn gymorth mawr i Pauline allu prynu gwobrau i’r Bingo bob mis.

### Cartref Newydd

Roeddem yn falch iawn o glywed fod Jamie, Tina a Jacob wedi setlo i lawr yn eu cartref newydd ym Mhenrhosgarnedd. Roedd Jacob wedi symud tŷ ac wedi dechrau mewn ysgol feithrin newydd hefyd. Mae’n mwynhau ei hun ac wedi gwneud ffrindiau mewn dim amser. Pob hapusrwydd i chi eich tri yn eich cartref newydd.

## Eglwys Sant Tegai

### Priodas

Ddydd Sadwrn, 20 Mehefin yn Eglwys Sant Tegai priodwyd James Kenneth Oates a Nicola Jade Jones. Gwasanaethwyd gan y Parchedig John Matthews. Dymuniadau da a hir oes i James a Nicola.

### Gwaeledd

Rydym yn anfon ein cyfarchion a’n dymuniadau gorau at Jane Couch, Ben Cramb, Gwynne Edwards, Enid Gardner, Harry Gross, Dian Hughes, Robert Marshall, y Parchedig Aelwyn Roberts ac Audrey McSorley. Gobeithio y bydd y tywydd cynnes yma’n gwneud rhywfaint o les i chi.

### Pen-blwyddi

Dymuniadau gorau i Jane Couch a fydd yn dathlu ei phen-blwydd ddydd Mercher, 29 Gorffennaf, a’r Parchedig Aelwyn Roberts ddydd Iau, 27 Awst yn 97 mlwydd oed. Gobeithio y cewch amser hapus eich dau.

Bydd George Pitcher, Aberystwyth, ŵyr Hefina, yn cael ei ben-blwydd yntau ddydd Iau, 20 Awst. Pob hwyl i ti George.

Diolch

Diolch o galon i aelodau newydd sydd wedi dod i Sant Tegai yn ddiweddar. Maent o gymorth mawr i ni yn y gwasanaethau ac yn cymryd rhan flaenllaw fel darllenwyr yn y Gymraeg a'r Saesneg ac yn help mawr ym mhob gweithgaredd sy'n digwydd yn yr Eglwys.

Diolch i bawb a fu'n gwerthu tocynnau'r raffl fawr yn barod erbyn Garddwest y Tair Eglwys ar 4 Gorffennaf yn Ficerdy Pentir. Mae pethau'n argoeli'n dda a hyderwn y cawn dywydd ffafriol eleni ac y bydd y tymheredd yn gynhesach na'r llynedd.

Eglwys Agored

Diolch i bawb a fu'n helpu ar ddydd Mercher a dydd Sadwrn i agor a chau'r eglwys ers mis Ebrill a diolch i Dr Daphne Russel am wneud y rota. Bydd yr Athro Ian Russel, Bwthyn Ceirios yn dathlu ei ben-blwydd ddiwedd mis Awst. Gobeithio y cewch ddiwrnod wrth eich bodd, Ian, gyda'r teulu.

Cae Chwarae Newydd

Llongyfarchiadau mawr i Grŵp Cymunedol Talybont ar eu llwyddiant yn sicrhau cae chwarae newydd i'r pentref. Mae hyn yn ffrwyth llafur 3 blynedd o waith caled ar brosiect a gostiodd oddeutu £80,000. Buont yn llwyddiannus yn denu grantiau oddi wrth y canlynol:- Cyngor Gwynedd, Loteri (Pobl a Llefydd), Mantell Gwynedd, Cartrefi Cymunedol Gwynedd, Tirlenwi Tir a Môr, Magnox.

Dymuna'r Grŵp, sef Jacqui Hughes, Stephanie Jones a Karen Desch, ddiolch i bawb am bob cymorth a gawsant i gwblhau'r prosiect.

Agorwyd y cae chwarae newydd yn swyddogol ar Sadwrn, 13 Mehefin, drwy gynnal diwrnod o hwyl i bawb fwynhau.



Rhan o'r cae chwarae newydd

Talybont

Neville Hughes,  
14 Pant, Bethesda  
☎ 600853

Diolch

Hoffai Rhian Haf, 36 Bro Emrys, ddiolch o waelod calon am y cardiau, galwadau ffôn, blodau ac anrhegion a dderbyniodd yn dilyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

Graddio

Llongyfarchiadau i Bethan Kendrick, 4 Lônddŵr, ar ennill gradd MSc gyda theilyngdod mewn Ymarfer Clinigol Uwch ("Advanced Clinical Practice") ym Mhrifysgol Bangor.

Ysbyty

Dymunwn wellhad buan i Sandra Davies, 29 Cae Gwigin, sydd wedi dod yn ôl gartref o ysbyty yn Lerpwl.

Eglwys Maes y Groes

Te Mefus

Cynhaliwyd ein Te Mefus blynyddol ar Sadwrn olaf Mehefin yn yr Ysgoldy. Diolch i bawb am eu cefnogaeth ac am y cacennau a'r rhoddion at y stondinau a'r raffl. Gwnaed elw o £1,000 a throsodd at yr eglwys. Unwaith eto, diolch i Phyllis Davies a'r tîm am drefnu achlysur mor llwyddiannus.

Ysbyty

Da deall fod Brian Thomas, Bryn Celyn, Gatws, wedi dychwelyd adref yn dilyn profion yn Ysbyty Gwynedd.

Cydymdeimlad

Hoffem estyn ein cydymdeimlad dwys at Gladys Brotherton, 3 Llwyn Bleddyn, Rachub, yn dilyn marwolaeth ei hunig fab, Geoffrey, yn ystod mis Mehefin. Ein cofion atoch.



Y Diwrnod Hwyl

Glasinfryn  
Caerhun

Marred Glynn Jones  
2 Stryd Fawr, Glasinfryn,  
Bangor LL57 4UP  
☎ 01248 351067  
Marred567@btinternet.com

Genedigaeth

Llongyfarchiadau mawr i Dylan a Sharon, Yr Hen Ardd, Caerhun, ar enedigaeth mab bach, sef Twm Gruffudd ar 26 Mehefin. Mae'n frawd bach i Caio Dylan ac yn ail ŵyr i Hefin a Nesta, Tŷ Capel.

Bingo

Bydd sesiwn Bingo yn cael ei gynnal yn y Ganolfan yng Nglasinfryn brynhawn Gwener, 31 Gorffennaf am ddau o'r gloch, gyda phaned a chacen i ddilyn am dri o'r gloch. Dewch draw am sgwrs a thipyn o hwyl. Croeso mawr i bawb!

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Luned V. Williams, Tyddyn Heulyn, ar ennill gradd BA 2.1 (Anrhydedd) mewn Celf Gain yng Ngholeg Menai. Llongyfarchiadau hefyd i'w brawd Huw fydd yn chwarae yng Ngŵyl Jazz Aberhonddu gyda'i fand HON (cyfansoddiadau gwreiddiol Huw). Bydd Huw hefyd yn chwarae efo

Huw Warren, 'Tails for Wales'. Bydd y band yn rhyddhau CD ym mis Hydref.

Trychineb

Yr ydym fel ardal yn cydymdeimlo'n fawr â Mr Elfed Griffith, Bryn Dedwydd ar ôl i'w gartref gael ei ddinistrio gan dân y mis diwethaf. Rydym wedi bod yn meddwl amdano, ac yntau wedi gorfod wynebu'r fath sioc a dinistr. Ond rydym hefyd yn anfon ein llongyfarchiadau iddo gan ei fod wedi cael ei ethol yn Llywydd Sioe Amaethyddol Dinbych a Flint ym mis Awst.

Sefydliad y Merched

Mrs Mair Griffiths oedd y Llywydd yn ein cyfarfod ym mis Mehefin. Wedi croesawu'r aelodau a thrafod materion cawsom grynoded o ymweliad Mrs Ingrid Farrer â'r Albert Hall ar 4 Mehefin. Mwynhaodd y profiad yn fawr iawn.

Ym mis Mehefin hefyd aeth 11 o'r aelodau ar y trên i ben yr Wyddfa fel rhan o ddathliad canmlwyddiant y Sefydliad, a chafwyd ymweliad â Phlas Maenan i fwynhau arddangosfa gosod blodau gyda the i ddilyn. Ar ddechrau'r mis hwn cafwyd ymweliad â Chanolfan Thomas Telford ym Mhorthaethwy gyda phryd yn y Four Crosses wedyn. Ar 15 Awst bydd garddwest yn cael ei chynnal yng Nghastell Caernarfon.

Ar ôl mwynhau paned wedi ei ddarparu gan Elizabeth a Sera, cyflwynwyd gwesteion y noson sef

Karolina Rusiak a Shelbuy De-Maulenaere, y ddwy yn fyfyrwyr doethuriaeth ym Mhrifysgol Bangor. Un o'r Almaen yw Karolina ac mae'n cynnal ymchwil i'r clefyd Alzheimers a dementia.

Siaradodd am y Prosiect Niwrosgilau (The Neuroskills project). Cyflwynodd nifer o sleidiau oedd yn dangos y newidiadau a all ddigwydd yn yr ymennydd. Roedd un o'n haelodau, Jocelyn, wedi bod yn rhan o'r prosiect oherwydd ei bod yn teimlo'n gryf bod angen dysgu mwy am y salwch. Americanes yw Shelby a'i phwnc hi oedd 'Mindfulness and how to regulate our emotions with older adults.' Dyma i chi ddau bwnc diddorol iawn ac roedd y ddwy yn frwdfrydig am eu gwaith ymchwil ac yn pwysleisio'r angen am wirfoddolwyr i wneud y gwaith pwysig hwn. Diolchwyd i'r ddwy gan Jocelyn.

Rhoddwyd y raffl gan Elizabeth ac fe'i henillwyd gan Kath.

Byddwn yn cyfarfod ar 9 Medi pan fydd Dr Ken Hardy yn dod draw atom. Edrychwn ymlaen at gwmni pawb bryd hynny a mwynhewch y gwyliau!

Capel Bethlehem

Oedfaon y Sul

Gorff. 19: Mr. T. Alun Williams, Caernarfon;  
Gorff. 26: Parchg. Geraint S. R. Hughes, Pwllheli;  
Awst: Dim Oedfaon;  
Medi 6: Miss Sioned Williams, Bethesda;  
Medi 13: Gweinidog;  
Medi 20: Parchg. Trefor Lewis.

Oedfaon am 2.00 oni nodir yn wahanol.  
Croeso cynnes i bawb.

Llan Llanast

Roedd festri Bethlehem yn byrlymu o weithgarwch plant brynhawn Mawrth, 9 Mehefin. Yr achlysur oedd cyfarfod o "Llan Llanast" a drefnwyd gan Mrs. Jennifer Roberts, Bethesda. Roedd y plant wedi mwynhau gwneud gwaith llaw o dan gyfarwyddyd oedolion – a mwynhau'r bwyd a'r diod cyn mynd adref! Hwn oedd y cyfarfod cyntaf ac edrychwn ymlaen at weld beth fydd yn dilyn hyn.



Rhan o'r prysurdeb fu yn Llan Llanast.

Ysbyty

Anfonwn ein cofion at Dilys Williams ac Ifan Jones sydd wedi bod yn yr ysbyty.

Te Mefus

Diolch i bawb am eu cefnogaeth i'r Te Mefus a gynhaliwyd yn y festri nos Fercher, 1 Gorffennaf. Noson lwyddiannus unwaith eto gydag elw o £654.00.



# Rachub a Llanllechid

**Dilwyn Pritchard,**  
Llais Afon, 2 Bron Arfon,  
Rachub  
LL57 3LW  
☎ 601880

**Taith Gerdded Flynyddol**  
Unwaith eto mae Ann a Raymond Tugwell yn trefnu'r daith gerdded elusennol flynyddol o Lyn Ogwen i Fethesda. Bydd yr arian a godir ar y daith yn cael ei rannu rhwng gwasanaeth CLIC a Chyfeillion Ysbyty Gwynedd.

Y gwahaniaeth eleni yw fod dyddiad arferol y daith wedi ei newid ac felly gwnewch nodyn mai ar FEDI 19, 2015 y bydd y daith yn cael ei chynnal. Ond dw i'n siwr na wnaiff newid y dyddiad unrhyw wahaniaeth i'r hwyl a'r sbri arferol.

Am fwy o wybodaeth neu i dderbyn eich ffurflenni noddi, gallwch gysylltu gydag Ann a Raymond ar 01248 601077. Does dim esgus - mae gennych ddigon o amser eleni i ddechrau ymarfer ar gyfer y daith!

**Pen-blwydd**  
Pen-blwydd hapus i Katie Midwinter, Ffordd y Mynydd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 18 oed a hefyd i'w hewythr, Trefor Morris yntau'n dathlu pen-blwydd arbennig.

**Cydymdeimlad**  
Anfonwn ein cydymdeimlad at Stephen ac Amanda, Stryd Britannia a'r teulu ar achlysur trist marwolaeth mam Stephen, Joan, ym Maes y Garnedd, Bethesda.

**Geoffrey Brotherton**  
Daeth y newyddion am farwolaeth Geoffrey Brotherton, Llwyn Bleddyn â braw dros yr ardal. Yn 51 mlwydd oed bu Geoff yn dioddef o salwch cas a chreulon ers peth amser. Yn ystod y dyddiau a ddilynodd y newyddion, yr un oedd teimladau pobl yr ardal - tristwch o golli personoliaeth dawel, fonheddig, weithgar ag un â gwen ar ei wyneb er ei holl anhwylder.

Byd Geoff oedd bysiau a loriau a chymerai ddiddordeb mewn hen beiriannau. Gwelwyd ef yn aml yn teithio i lefydd fel Widnes, Henffordd ac Amwythig, heb sôn am lefydd yn nes adref, wrth ddilyn y sioeau yma.

Bu Geoff yn berchen ar ei lori ei hun am gyfnod hir gan gario cynnyrch o Chwarel y Pennrhyn. Yn aml iawn fe'i gwelwyd y tu ôl i olwyn un o fysiau ei dad, y diweddar Dafydd Brotherton, ar deithiau lleol ac yn gyson fe âi dros y môr i rai o wledydd Ewrop.

Ei waith yn ddiweddar oedd tywys ymwelwyr i grombil y mynydd o dan chwarel Llanberis i'r gwaith cynhyrchu trydan hydro sydd yno.

Roedd presenoldeb cynifer o weithwyr y cynllun a phobl leol, yn ffrindiau a theulu, yn ei angladd yn yr Amlosgfa ym Mangor ddydd Iau, Mehefin 26 yn dyst o boblogrwydd Geoff.

O golli Geoff bydd bwlch mawr o fewn y teulu, a oedd yn agos iawn at ei galon.

Anfonwn ein cydymdeimlad at Mrs Brotherton a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

**Nain a Thaid**  
Llongyfarchiadau i John a Brenda Hughes, Fferm Talysarn ar ddod yn nain a thaid unwaith eto pan anwyd bachgen i David ac Emma yng Ngharneddi.

Llongyfarchiadau i Dylan a Meinir Rowlands, Llwyn Bleddyn ar ddod yn nain a thaid. Ganwyd merch, Cadi Rhodd i Alaw a Derec yn Abertawe. Dymuniadau gorau i'r ddau deulu.

**Llongyfarchiadau**  
Llongyfarchiadau i Huw Pritchard, Bron Arfon ar basio cwrs doethuriaeth yn y Gyfraith ym Mhrifysgol Bangor. Pob hwyl iddo yn ei swydd newydd ym Mhrifysgol Caerdydd ym mis Medi.

Llongyfarchiadau hefyd i Gwion Williams, Hen Barc ar ennill gradd 2:1 mewn Addysg ym Mhrifysgol Aberystwyth. Dymuniadau gorau iddo yntau pan fydd yn cychwyn ar ei waith yn Ysgol Hafod Lon, ger Pwllheli.

**Diolch**  
Dymuna Melanie Tugwell, Maes Bleddyn ddiolch i bawb am y cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniodd tra bu'n treulio cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Dymuna Mrs Gladys Brotherton ddiolch i bawb am yr holl gardiau, galwadau a rhoddion a dderbyniodd ar achlysur trist marwolaeth Geoffrey. Diolch hefyd i'r Parch Dafydd Coetmor Williams am ei holl waith ac i'r ymgymwrwr, Stephen Jones am waith trylwyr. Mae ei diolch hefyd i'r teulu am fod yn gefn iddi ar adeg mor drist.

Mae Michael a Keilly Tugwell Williams am ddiolch i bobl yr ardal am y caredigrwydd a dderbyniwyd ar achlysur trist marwolaeth tad Michael, Billy, ym Methesda.

Dymuna Christine Jones, 7 Hen Ysgol, ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd arbennig. Diolch hefyd i bawb fu'n ymweld â hi pan oedd yn yr ysbyty yn ddiweddar.

**Cylch Ti a Fi**  
Gyda thymor arall yn dirwyn i ben mae Keilly am ddiolch i bawb am yr holl gefnogaeth a dderbyniodd dros y flwyddyn. Bu'n gyfnod o newid wrth i'r Cylch symud i gartref newydd yn y Clwb Criced. Mae Keilly am ddymuno gwyliau hapus i'r plant ac yn estyn croeso i aelodau hen a newydd i'r Clwb ym mis Medi.

## Capel Carmel

**Te Bach**  
Cafwyd te bach llwyddiannus brynhawn Llun, 22 Mehefin wedi ei drefnu gan Helen ac Eira. Cyflwynwyd yr elw o £250 i gronfa cynnal a chadw adeiladau'r Capel. Diolch i bawb am eu rhoddion hael ac am sicrhau prynhawn llwyddiannus. Hefyd diolch i bawb a fu'n helpu ac i'r nifer fawr o ffyddloniaid y Te Bach am eu presenoldeb dros fisoedd y Gaef a'r Gwanwyn.

**Yr Ysgol Sul**  
Cawsom fore hwyliog ar ddiwedd Mehefin gyda'r plant wedi eu gwisgo mewn gwisg ffansi fel anifeiliaid - gwyllt a dof. Croesawyd Mrs Marian Jones o Ysgol Llanllechid atom a bu'n sôn am eliffantod ac anifeiliaid eraill sydd dan fygythiad ar draws y byd. Dywedodd ei bod yn bwysig bod pob un ohonom yn helpu mewn gwahanol ffyrdd i sicrhau bod yr eliffantod yn cael byw'n ddiogel yn eu cynefin yn y dyfodol. Yna daeth Mr Kevin Eccles, 'Rynys atom gan ein cyflwyno i ddafad ddu a'i hefeiliaid. Roedd y plant wrth eu bodd yn rhoi mwythau iddynt ac fe fedyddiwyd hwy gydag enwau, Wendi, y fam, a Seren a Sam y ddau efaill. Mwynhawyd hufen iâ bob un cyn mynd adref.



Byddwch yn garedig wrth bob creadur byw



Y plant gyda'r defaid a'r ŵyn bach

Diolch i Marian a Kevin am roi o'u hamser i ni. Hefyd i Mrs Fiona Sherlock am beintio wynebâu'r plant fel anifeiliaid o bob math! Mawr yw ein diolch i athrawon yr Ysgol Sul am eu gwaith drwy gydol y flwyddyn. Cawn ychydig o wyliau dros yr Haf ac edrychwn ymlaen i'ch croesawu'n ôl a chroesawu aelodau newydd ym mis Medi.

## Capel Carmel

### Trefn Gwasanaethau

**Gorffennaf**  
19 Mrs Nerys Jackson 5.00  
26 Parch. Tecwyn Roberts 5.00  
**Awst**  
02 Uno yn Jerusalem 10.00 a 5.00  
09 Uno yn Jerusalem 10.00 a 5.00  
16 Uno yn Jerusalem 10.00 a 5.00  
23 Parch. Ddr D.W. Wiliam 2.00  
30 Gweinidog 5.00  
**Medi**  
06 Gweinidog (Cymun) 5.00  
13 Parch. W. R. Williams 2.00  
20 Miss Nerys Jackson.  
**Bydd yr Ysgol Sul a'r Clwb Dwylo Prysur yn ail-ddechrau fis Medi.**

## Capel Bethel

### Gwasanaethau

**Gorffennaf**  
19 Mr. Dafydd Iwan.  
26 Parch/Ddr Dafydd Wyn Wiliam  
**Awst**  
Dim Oedfaon  
**Medi**  
06 Parchg. Dafydd Job.  
13 Gweinidog  
20 Parch. Richard Owain Jones.  
**Oedfaon am 2.00 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.**



Premier Byd!



Thalia ar ddiwedd y perfformiad

Llongyfarchiadau i Thalia Lichtenstein, Stryd y Mynydd ar arwain darn cerddorol o’i gwaith ei hun yn Galeri, Caernarfon yn ddiweddar. Mae Thalia yn aelod o Ensemble Cellos Canolfan Gerdd William Mathias, a chafodd arwain yr Ensemble wrth i’w gwaith gael ei berfformio am y tro cyntaf yng nghyngerdd Llwyfan Cerdd y Ganolfan. Roedd hwn yn bremier byd-eang, felly!

Athrawes sielo Thalia, Nicki Pearce, sydd fel arfer yn arwain yr Ensemble, a hi a aeth ati i drefnu’r darn ar gyfer y grŵp.

Cyfansoddodd Thalia, sy’n 13 oed, yr alaw

Atgofion Heddychlon ar gyfer yr Wyl Delynau a gafodd ei chynnal yn Galeri ym mis Ebrill.

Roedd nifer o berfformwyr ifanc o’r Dyffryn yn rhan o’r perfformiad, sef Hanna Durrant a Gwydion Rhys, Rachub, Aziliz Kervegant, Tregarth ac Abigail Greenough, Bethesda.

Clwb Hanes Rachub

**Noson Defaid William Morgan**  
Cafwyd noson arbennig iawn i gloi tymor llwyddiannus Cymdeithas Hanes Rachub a Llanllechid nos Wener, 26 Mehefin. Roedd Clwb Criced Bethesda’n orlawn!

Cawsom noson wych o adloniant dan arweinyddiaeth hwyliog Neville Hughes, a gwelwyd perfformiadau arbennig gan Celt a Hogia’r Bonc. Yna, i goroni’r cyfan, cafodd pawb un o fyrgyrs ‘Blaen y Nant’ - ‘byrgyrs gorau’r byd’ yn ôl llawer - diolch i Gwyn Thomas a’i griw o weithwyr prysur! Yn ogystal, daeth Gerallt Pennant draw, i greu eitem ar gyfer y rhaglen Heno.

Roedd yn braf cael croesawu teuluoedd William Morgan a William Griffith i’r noson, a chael ymuno i ganu’r gân enwog ar ddiwedd y noson gyda Neville a Hogia’r Bonc. Diolch yn fawr i bawb arall a gefnogodd y noson - Royal Oak, Gareth Williams, Ysgol Llanllechid, Andy Carson, A. Parry-Owen, Crefftau Howget, Gwenan Roberts, Alison (Barbwr Ogwen) a staff y Clwb Criced ei hun.

Diolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd at noson werth chweil! Bydd cyfarfodydd y tymor nesaf yn cychwyn ym mis Medi.

Tregarth

**Olwen Hills (Anti Olwen),**  
44 Bro Syr Ifor,  
Tregarth  
☎ **600192**

**Angharad Williams,**  
23 Ffordd Tanrhiw,  
Tregarth  
☎ **601544**

**Bedydd**  
Ar 21 Mehefin yng Nghapel Shiloh Tregarth bedyddiwyd Iago Tudor, mab Ffion a Dion, Penrala, Tregarth, gan y Parchedig Philip Barnett.

Mae Ffion yn ferch i Tudor ac Olwen Jones, Fferm Coed Hywel, Glasinfryn, a Iago yw eu hŵyr cyntaf.

**Merched y Wawr**  
Bydd Merched y Wawr, Tregarth yn ail afael ynddi ar 7 Medi yn festri Capel Shiloh fel arfer. Mae croeso i aelodau hen a newydd ymuno â ni ar gychwyn blwyddyn newydd arall.

**Llwyddiant Academiaidd**  
Llongyfarchiadau i Gwyn Owen, mab Helen a Gwilym Owen, 9 Tal y Cae, ar ennill Gradd Dosbarth Cyntaf yn yr Academi Gerdd yn Llundain. Gwyddom am Gwyn yn drympedwr dawnus dros ben a dymunwn bob llwyddiant iddo i’r dyfodol yn y byd cerdd.

Dosbarthwyr Llais Ogwan Tal y Cae, Talgae a'r ardal

Mae Ann a Gomer yn ddiolchgar iawn i Mrs Carys Williams a Mrs Beryl Hughes am eu parodrwydd i dderbyn y dasg o ddosbarthu Llais Ogwan yn ardal Tal y Cae. Diolch hefyd i bawb sydd wedi cefnogi'r Llais a gwneud casglu'r taliad blynyddol mor rhwydd.

| Clwb 100 Canolfan Tregarth |     |  |
|----------------------------|-----|--|
| Mis Mehefin                |     |  |
| 36 Dafydd Roberts          | £15 |  |
| 29 Rosemary Williams       | £10 |  |
| 15 Bob Roberts             | £5  |  |

| Eglwys y Santes Fair                                                                                        |                 |             |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------|-------------|
| Gwasanaethau                                                                                                |                 |             |
| <b>Gorffennaf</b>                                                                                           |                 |             |
| 19                                                                                                          | Boreol Weddi    |             |
| 26                                                                                                          | Cymun Bendigaid |             |
| <b>Awst</b>                                                                                                 |                 |             |
| 02                                                                                                          | Boreol Weddi    |             |
| 09                                                                                                          | Cymun Bendigaid |             |
| 16                                                                                                          | Boreol Weddi    |             |
| Gwasanaethau mis Gorffennaf am 9.45 yb ond o fis Awst ymlaen bydd pob gwasanaeth yn dechrau am 9.30.        |                 |             |
| <b>Clwb Cant Mis Mehefin</b>                                                                                |                 |             |
| £10.00                                                                                                      | 33              | Myra Jones  |
| £10.00                                                                                                      | 6               | David Jones |
| £5.00                                                                                                       | 149             | Elsie Lake  |
| <b>Bedydd</b>                                                                                               |                 |             |
| Ddydd Sul, 28 Mehefin, cawsom wasanaeth bedydd Alys Rose, merch fach Rhian a Chris.                         |                 |             |
| <b>Garddwest</b>                                                                                            |                 |             |
| Erbyn y daw’r Llais allan byddwn i gyd wedi mwynhau garddwest y tair eglwys. Mwy o hanes yn y rhifyn nesaf! |                 |             |

Capel Shiloh

|                                                                |                   |
|----------------------------------------------------------------|-------------------|
| <b>Yr Ysgol Sul am 10.30</b><br><b>Gwasanaeth yr hwyr 5.00</b> |                   |
| Gorffennaf 12                                                  | Harri Parri       |
| Gorffennaf 19                                                  | Trefniant Lleol   |
| Gorffennaf 26                                                  | John Gwilym Jones |
| Awst                                                           | Dim Gwasanaethau  |
| Medi 6                                                         | Gwynfor Williams  |
| Medi 13                                                        | Reuben Roberts    |
| Medi 20                                                        | Philip Barnett    |

Llongyfarchiadau i ddau o aelodau Shiloh sydd wedi dod yn Nain a Taid am yr eildro. Ganed merch fach, Ani Cêt, i Einir a Dewi Ellis Jones, Llanwnda, a chwaer fach i Ela. Mae Dewi yn fab i Valerie a David Ellis Jones, Glan Gors, Tregarth. Llongyfarchiadau i chi fel teulu.

Yn Shiloh, bnawn Sul, 21 Mehefin, bedyddiwyd Iago Tudor Lloyd Hughes, mab bychan Ffion a Dion Hughes, Bwthyn Penrala, Tregarth gan Y Parchedig Philip Barnett. Dymuniadau gorau i Iago.

**Miri Mehefin**  
Cynhaliwyd Miri Mehefin, sef Cymanfa Ysgolion Sul Arfon, yng Nghapel Shiloh, ar 28 Mehefin. Daeth cynulleidfia deilwng i fwynhau canu dan arweiniad Wyn Thomas o Brifysgol Bangor a Wyn Williams, Tyddyn Dicwm, Tregarth, yn gyfeilydd. Mrs Christine Morris Jones gyflwynodd yr arweinydd a’r cyfeilydd. Aelodau o Ysgol Sul Shiloh sef Gwenlli, Hannah, Shwnamis, Caleb, Elysteg, Nel a Myfi gychwynnodd yr oedfa dan y thema ‘rhoi cymorth i eraill’. Daeth aelodau Ysgolion Sul Bosra, Penisarwaun, Ebeneser, Caernarfon a Shiloh, Tregarth at ei gilydd i ganu. Yn ystod y pnawn cyflwynwyd tystysgrifau a medalau i’r plant a’r ieuencid a gasglodd at y Genhadaeth Dramor a Chartref. Diolchodd y Parchedig Gwynfor Williams i bawb a drefnodd y Miri ac i bawb wnaeth gefnogi. Dywedodd pa mor braf oedd bod y Gymanfa yn parhau i gael ei chynnal yn yr ardal. Yn dilyn y Miri cafwyd Te Parti i bawb yn y Ganolfan Gymdeithasol a hyfryd oedd gweld y neuadd yn llawn a phawb yn mwynhau. Diolch o galon i rieni, teulu a ffrindiau Ysgol Sul Shiloh am y wledd ardderchog.

Llongyfarchiadau i ddau o bobl ifanc y pentref sydd wedi bod yn aelodau o Ysgol Sul Shiloh yn y gorffennol am eu llwyddiant. Mynychodd Morgan Jones, Henli, Pendas, Ysgol Dyffryn Ogwen yn ddi-dor am bum mlynedd a chyflwynwyd gwobr arbennig iddo gan yr ysgol sef i-Pad a thystysgrif i nodi ei lwyddiant rhagorol.

Mae Esme Crowe, Sling, yn nofwraig ddawnus dros ben ac ym Mhencampwriaeth Cymru yn ddiweddar enillodd dair o fedalau efydd. Mae Esme yn aelod o Glwb Nofio Caernarfon. Ardderchog, Esme.

**Cydymdeimlo**  
Yn ystod mis Mehefin daeth profedigaeth i ran Olga a Haydn Davies, Yr Hen Berllan, Dob, pan fu farw brawd Olga oedd yn byw yng Nghaeathro. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch chi fel teulu.

|                    |                                                                       |
|--------------------|-----------------------------------------------------------------------|
| <b>Braichmelyn</b> | <b>Rhiannon Efans,</b><br>Glanaber, Pant, Bethesda<br>☎ <b>600689</b> |
|--------------------|-----------------------------------------------------------------------|

**Cydymdeimlad**  
Collwyd un arall o’r hogiau a fagwyd ym Mraichmelyn, sef Stephen Hughes o Fangor. Magwyd Stephen yn 13 Gernant yn fab ieuengaf i Douglas a Phyllis Hughes. Cydymdeimlwn â’r teulu i gyd yn eu profedigaeth sydyn ac annisgwyl

**Cofion**  
Anfonwn ein cofion at Mrs Nonna Jones, 2 Penygraig hefyd ac unrhyw un arall sydd wedi bod yn cwyno ac yn methu â dod allan. Nid yw Anti Eirlys yn cwyno ond rydym yn meddwl amdani’n gyson.

| Clwb Camera Dyffryn Ogwen                                                                                                                                                                                     |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Bydd y Clwb Camera’n ail-ddechrau cyfarfod ym mis Medi. Bydd cyfarfod cynta’r tymor newydd nos Fercher, 9 Medi yng Nghanolfan Cefnfaes am 7.30, a bydd y clwb yn cyfarfod bob yn ail nos Fercher ar ôl hynny. |
| <b>Croeso cynnes i aelodau newydd.</b>                                                                                                                                                                        |

# Mynydd Llandygái

Theta Owen, Gwêl y Môr,  
Mynydd Llandygái. ☎ 600744

**Gwellhad Buan**  
Anfonwn ein cofion at bawb yn yr ardal nad ydynt yn teimlo’n rhy dda ar hyn o bryd. Dymunwn adferiad buan i bob un ohonoch.

**Clwb y Mynydd**  
Bu’r Clwb am drip i’r Wyddgrug a Tweedmill ym mis Mehefin. Cafwyd diwrnod braf a phawb wedi mwynhau – a siopa am nwyddau at yr haf! Dymunwn wyliau hapus i bawb.

Bydd y cyfarfod nesaf ar y trydydd dydd Mercher ym mis Medi.

## Eglwys y Santes Ann a’r Santes Fair

### Gwasanaethau

Gorffennaf 19: Cymun Bendigaidd  
Gorffennaf 26: Boreol Weddi  
Awst 1: Gwasanaeth Teuluol  
Awst 9: Cymun Bendigaidd  
Awst 16: Cymun Bendigaidd

Dechreuir am 9.45 y.b. Croeso cynnes i bawb.

Ein dymuniadau gorau i bawb sy’n sâl ar hyn o bryd; anfonwn ein cofion cywiraf atoch i gyd. Mae’r Ficer, y Parchedig Christina McCrea yn barod bob amser i siarad ag unrhyw un o'r plwyfolion. Cysylltwch â hi ar 01248 372249 neu ag un o'r wardeiniaid.

### NOSON GWIS FFARM MOELYCI

Gwesty’r Douglas, Bethesda

Ail ddydd Mawrth pob mis,

19.30 i ddechrau am 20.00

# Ffarm Moelyci

## I feithrin bwyd da, bywyd gwyllt a menter lleol

Mae Ffarm Moelyci - ffarm gymunedol ar gyrion Tregarth - yn dechrau ar ddyfodol newydd. Gyda phwyslais o hyd ar wella'r amgylchedd a chroesawu'r gymuned leol rydyn ni’n cefnogi sefydlu mentrau cefn gwlad newydd. Ymysg y rhain bydd busnes ffermio ymhellach ymlaen yn y flwyddyn, ond yn y cyfamser bydd siop a chaffi newydd yn agor i werthu bwyd da sydd wedi'i dyfu'n lleol (pan fo hynny'n bosib). Gyda ffrwythau hel-eich-hun ar gael o fis Gorffennaf ymlaen a chegin gymunedol/fasnachol yn cael ei gosod ym mis Awst, mae cyfleoedd i bawb ymuno.

Mae'r 'sgubor wedi cael ei hatgyweirio ac yn fan arbennig i gynnal cyfarfodydd a digwyddiadau mewn lleoliad bendigedig. Mae'r ardd fasnachol yn cynnig cyfleoedd i wirfoddoli a dysgu sut i dyfu bwyd da, ac mae'r rhandiroedd bellach yn cynnal dros 60 o dyfwyr lleol.

**Y SIOP**  
Mae hon yn dal i dyfu. Erbyn hyn rydym wedi dyblu nifer y bocsys llysiau sy’n cael eu gwerthu ac yn defnyddio bagiau papur addas i’w hailgylchu yn lle’r hen focsys cardfwrdd.

Mae gennym lawer mwy o gynnyrch organig ac rydym yn cefnogi’r marchnadoedd lleol. Braf yw gweld fod llawer o bobl leol yn ein cefnogi ac yn helpu i rannu gwybodaeth amdanom.

Rydym yn chwilio am fwy o wirfoddolwyr i helpu yn y siop a’r caffi.

Rydym wedi dechrau gweithio ar y gegin gymunedol/fasnachol hefyd ac wrthi’n cwblhau’r cynlluniau. Bydd hon yn barod erbyn diwedd yr haf.

Os ydych am wybod mwy am y siop, neu os ydych yn gynhyrchydd lleol sydd am ddod yn rhan o’r prosiect gwerthu ar y cyd, yna cysylltwch â davee@cwmharry.org.uk

**GRWPIAU**  
Os nad ydych am wneud gwaith ymarferol, beth am ymuno ag un o’r grwpiau sydd yn llunio dyfodol Moelyci?

- Grŵp Diwylliant ac Etifeddiaeth – arwain y dasg o sicrhau ein bod yn dysgu am ein gorffennol ac yn dod yn rhan o’r gymuned Gymraeg yr ydym yn rhan ohoni.
- Grŵp Ecoleg a Bywyd Gwyllt – ar hyn o bryd rydym yn gwneud arolwg o’r tir a’r adeilad i weld pa fywyd gwyllt sydd yma. Mae hyn yn bwysig gan ein bod am ailddechrau ffermio yma yn 2016.
- Grŵp hybu gwerthu bwyd lleol – yn ein helpu i sicrhau bod y siop a’r caffi yn tyfu’n fusnes llewyrchus fydd yn gweithio i ni ac i’r gymuned hefyd.
- Grŵp trafod dyfodol ffermio – yn ystod yr haf byddwn yn cynnal cyfres o sgysiaau a grwpiau trafod i’n helpu i benderfynu sut i ailddechrau ffermio yma ym Moelyci.
- Digwyddiadau – mae Moelyci yn lle bendigedig ar gyfer cynnal gwahanol ddigwyddiadau ac mae’r grŵp yma’n ein helpu i gael yr adnoddau priodol.

**GWIRFODDOLI**  
Beth am wirfoddoli i helpu ym Moelyci er mwyn gwneud ffrindiau newydd, gwneud gwahaniaeth i’ch cymdeithas ac i’r amgylchedd? Gallwn ni eich helpu i wella eich CV a chael pleser wrth gyfrannu fel hyn. Dyma’r amser i wirfoddoli gan ein bod wrthi’n chwilio am wirfoddolwyr yn y meysydd canlynol:

Rheoli’r tir a gwarchod bywyd gwyllt – wrth i ni adnewyddu’r fferm cewch ddysgu sut i osod waliau, gwrychoedd a dŵr a sut i ofalu am y tir o gwmpas. Ymunwch â’r tîm i gael paned a sgwrs ac i wneud tipyn o waith hefyd!

Mae dau gyfle arbennig yn y byd garddio hefyd.  
Bob dydd Iau 10.00 tan 4.00.  
Oriaau agor y Swyddfa: 9.30 – 13.00, Dydd Llun i Ddydd Gwener.  
Ffôn: 01248 602793

Ewch i’n safle newydd ar y we i gael y newyddion diweddaraf am ddigwyddiadau sydd ar y gweill: [www.moelyci.org.uk](http://www.moelyci.org.uk)  
Gwirfoddolwyr sy’n dylunio a chynnal gwefan Ffarm Moelyci. Mae’r fersiwn Gymraeg yn cael ei llunio ar hyn o bryd a bydd ar gael yn fuan. Rydym yn chwilio am fwy o wirfoddolwyr i sicrhau bod y wefan yn gyflawn cyn gynted â phosib, ac yn diolch i chi am eich amynedd. Os hoffech chi gyfrannu neu helpu gyda’r trawsieithu, cysylltwch â ni.

## Cynllun Tai Coetmor – Gohirio eto (parhad o’r dudalen flaen)

Mae dwy flynedd ers i gwmni Carter Jonas, ar ran Richard Douglas-Pennant, gyflwyno cais cynllunio amlinellol i godi stad 69 o dai yng Nghoetmor. Yn y cyfamser, mae Gwasanaeth Cynllunio Cyngor Gwynedd wedi derbyn 693 o lythyrau a deiseb efo dros 1,000 o lofnodion arni yn gwrthwynebu’r datblygiad. Mae’r llythyrau gan unigolion a chan gyrff lleol a chenedlaethol, ac maen nhw’n cynnwys amrywiaeth o resymau dros wrthwynebu codi stad 69 o dai ar y safle:

- Tir glas ydi’r safle, a byddai colli defnydd amaethyddol ohono yn effeithio ar fywoliaeth y tenant
- Byddai perygl llifogydd oherwydd y dirwedd a draeniad dŵr diffygiol
- Byddai’r cynnydd yn y drafnidiaeth yn achosi problemau oherwydd lonydd culion a throadau
- Ni chynhaliwyd arolwg i fesur y gofyn am dai newydd ym Methesda

- Darparu ar gyfer Bangor a choridor yr A55 yw bwriad y datblygiad
- Mae’r tir dan sylw yn rhan o’r darn daear gwledig ac annatblygedig yn ngheg y dyffryn sy’n ymestyn yn ddi-dor i Llanllechid a Thalybont, a byddai ei ddatblygu yn gosod cysail ar gyfer datblygu pellach yn y rhan hon o’r dyffryn. Gallai Stad y Penrhyn yn y dyfodol geisio datblygu’r caeau rhwng y safle presennol a mynwent Coetmor. Mae eisoes yn bwriadu cyflwyno cais cynllunio i godi stad o dai gyferbyn â Maes Bleddyn
- Ni chynhaliwyd Asesiad Effaith Ieithyddol o’r datblygiad arfaethedig, dim ond Datganiad Ieithyddol cwbl anfoddfaol gan y datblygwr ei hun. Byddai codi stad mor fawr yn enghraifft o orddatblygu, a byddai’n debygol o wanychu sefyllfa’r Gymraeg yn yr ardal.

Ymhlith y gwrthwynebwyr mae Pwyllgor Diogelu Coetmor, Cyngor Cymuned Bethesda, Cyngor Cymuned Llanllechid, Cyngor Cymuned Llandygái, Alun Ffred Jones AC,

Hywel Williams AS, Archdderwydd Cymru, Undeb Amaethwyr Cymru, Cangen Dyffryn Ogwen o Blaid Cymru, Pwyllgor Rhanbarth Arfon Plaid Cymru, Menter Iaith Dyffryn Ogwen, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, Dyfodol i’r Iaith, Cylch yr Iaith, Mentrau Iaith Cymru.

Mae tua 140 o dai yng nghymdogaeth Coetmor, a byddai’r datblygiad yn cynyddu nifer y tai hanner cant y cant, ac ym marn llawer iawn o’r llythyrywyr, gan gynnwys y mudiadau iaith, byddai’n sicr o newid cymeriad ieithyddol a diwylliannol y gymdogaeth.

Mewn datganiad, dywed Pwyllgor Diogelu Coetmor, “Rydym wedi pwysleisio o’r cychwyn nad codi stadau mawr sydd ei angen ond codi clystyrau bychain o dai - ar dir llwyd lle bo’n bosib - a hynny mewn ymateb i’r gofyn lleol, fel eu bod yn plethu i mewn i wead y gymdeithas.”

## MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd  
Atgyweirio MOT  
Gwasanaethu Cerbydau  
Cydbwysu Teiars  
Batris  
Tracio

01248 600619



moduronpandy@yahoo.com  
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,  
Gwynedd LL57 4AY



## Contractwyr Trydanol

### Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig  
Penrall, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257

Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk



## Y BWTHYN TE pen y ceunant isaf

LLWYBR YR WYDDFA LLANBERIS



**PEN Y CEUNANT ISAF-**  
BWTHYN A ADEILADWYD AR  
WAELODION LLWYBR YR WYDDFA  
(O LLANBERIS)  
YN YSTOD Y 18ed. GANRIF  
CEWCH GROESO ARBENNIG  
YMA, YN OGYSTALA  
GOLYGFYDD GWYCH DROS  
LLYN PADARN A DYFFRYN PERIS

AR AGOR 9am.- 9pm. BOB DYDD DRWY'R FLWYDDYN  
DIOOYDD GYDA SCON NEU DEISEN (Dim prydau o gwbl!)  
MAN PARCIO O FLAEN Y BWTHYN \* YN ADDAS I'R ANABL  
**Oriel arbennig o luniau Syr Kyffin Williams**  
a llu o arlunwyr Cymreig eraill

(01286)872606

www.ceunant.co.uk  
steven@ceunant.co.uk



Cyngerdd Dathlu  
**NEUADD OGWEN**  
yn flwydd oed

1 Awst 7.30 pm  
£15 (£12 consesiwn)

Neuadd Ogwen  
Tocynnau o Siop Ogwen  
neu  
www.neuaddogwen.com

**Catrin Finch**  
**Côr y Penrhyn**  
**Patrick Rimes**

## JR SGAFFALDIAU Cyf. JR SCAFFOLDING Ltd.

YR IARD, Ffordd Stesion, Bethesda,  
GWYNEDD LL57 3NE  
e-bost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:

01248 601754

07770 568743 (symudol)



## OWEN'S TREGARTH Cludiant Preifat a Bws Mini



Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd  
Arbenigo mewn meysydd awyr

01248 602260

07761619475



www.owenswales.co.uk

## Clwb Criced a Bowlio Bethesda

Lon Newydd, Bethesda, Gwynedd, LL57 3DT

### Lleoliad Gwych ar Gyfer Pob Achlysur

Cyfleusterau Gwych ar gael i Fudiadau,  
Cymdeithasau a Thrigolion

Partion, Bedydd, Cyfarfodydd, Gigs,  
Digwyddiadau, Cynhadleddau, Priodasau a llawer  
mwy...

Dyddiau ac amseroedd hyblyg ar gael ar gyfer  
llwyddiant Clwb a Prisiau rhesymol

### Oriau Agor:

Sul: **Ar Gais**  
Llun: **Ar Gais**  
Mawrth: **Ar Gais**  
Mercher: **Ar Gais**  
Iau: **8-12**  
Gwener: **7-12**  
Sadwrn: **7-12**

Cyfleusterau: 3 ystafellau Tenis / 3 bar / Llawfyr / Cegin, grŵp chylpar / Digin o le parcio / Sgwern a Pwl

Manylion Cyswllt: Ffôn: (01248) 600833, E-bost:  
crickedbethedacricet@outlook.com,



Sioe awyr agored

## Swllyt y Brenin

Blas ar brofiadau'r Rhyfel Byd Cyntaf  
drwy gerddi a straeon llawr gwlad

**Gyda TWM MORYS, IFOR AP  
GLYN, a MYRDDIN AP DAFYDD**

**Nos Wener, Gorffennaf 24<sup>ain</sup> am 6:30y.h**  
yn Yr Ysgwrn

Dewch â phicnic a mwynhewch 'las  
oriellau' cartref Hedd Wyn  
Bydd ffermdy'r Ysgwrn ar agor o  
5.00yh i ymwelwyr

Cysylltwch a Jess/Sian ar 01766 770274



Supported by  
**The National Lottery**  
through the Heritage Lottery Fund

Cefnogydd gan  
**Y Loteri Genedlaethol**  
trwy Gronfa Ddiwydiol a Loteri





# Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen

Roedd Sioe Dyffryn Ogwen yn llwyddiant unwaith eto eleni, gyda bwrwm mawr ar gaeau Clwb Rygbi Bethesda ddydd Sadwrn, 13 Mehefin.

Fe fu'n bygwth bwrw glaw drwy'r dydd, ond buom yn lwcus, ac fe gadwodd y cawodydd draw. Mae'r Sioe'n parhau i fod yn un o uchafbwyntiau'r flwyddyn yn y Dyffryn ac mae yno rywbeth i blesio pawb. Roedd hi'n braf gweld cymaint o bobl wedi dod draw i gefnogi.

Diolch i bawb a fu'n trefnu a chystadlu. Dyma flas i chi o'r diwrnod drwy gyfrwng lluniau.



Gwilym Rees Evans, Ceunant, Llanllechid, gyda'i "Daimler Century Conquest" 1955



Huw Williams, Erw Las, Bethesda, yn dangos Armstrong Siddely 1932.



Rhoi trefn ar raffl fawr y sioe.



Mabolgampau'r Plant: Diwedd ras.



Rhys (Neuadd Ogwen) a'i ferch Martha hefo Meg a enillodd ail wobwr.



Barbara Jones, Talybont (gwobr am ei jam) ac Iris Harper, Llandygai (gwobrau am ei gwaith gwnio.)



Gwenda Jones, Glan Ffrydlas, a Doris Shaw o Fangor, a fu'n llwyddiannus gyda'u gwaith llaw.



Dwy o Ysgol Pen-y-bryn, sef Ella White a Grace Mayhead, wedi dod yn ail a thrydydd gyda'u gwaith yn arlunio "Byd Chwaraeon".



Joshua Hughes o Rachub a lwyddodd yn yr Adran Goginio.



Cystadlu ar y cneifio.



Sheila o Gapel Curig - enillydd nifer o wobrau yn y Adran Cartref.



Yannick Evans Le Maire, ail yn y Ras Sachau (Llun: Emyr Roberts)



Ceri Durrant, Rachub, enillydd prif wobwr yr adran goginio am ei ‘quiche’



Quiche Ceri: Yr orau yn y Sioe



Da gweld fod ein ffotograffydd prysur wedi cael cyfle am ginio!

## Pwy Sy’n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes



### Dyddiadur Digwyddiadau 1922-1926

#### Tua 1922

- Penodi Edward Williams (yn wreiddiol o Bant-glas, Bethesda) yn Brif Gwnstabl Sir Gaernarfon.

#### 1922

- 18/04/1922 (Mawrth): H. L. Foster (Groser), Carneddi, yn marw. 35 oed. (Tad Syr Idris Foster).
- Cyhoeddi Cerddi Huw Puw gan J. Glyn Davies, cerddi a gyfansoddwyd ar gyfer Côr Ysgol y Cefnfaes yn benodol. Meddai'r awdur yn y Rhagymadrodd i'r argraffiad cyntaf: 'Cyfansoddwyd y rhan fwyaf o'r cerddi hyn yn arbennig ar gyfer Ysgol Ganol y Cefnfaes, Bethesda, tan gymhelliad aflonydd Miss Jennie Thomas, a than sbrydoliad y croeso a gafodd bob cerdd yn ei thro gan y pennaeth, Mr J. J. Williams, Miss Annie Davies, ac yn enwedig y plant.'
- R. Williams Parry yn cael ei benodi'n ddarlithydd yng Ngholeg y Brifysgol, Bangor, ac yn symud i letya i Rhes Gordon, Bethesda, gyda Mrs W. H. Jones (modryb i Ernest Roberts).

#### 1923

- Cyfarfod Cyhoeddus yn Festri Capel Hermon, Mynydd Llandegai, i drefnu ymgyrch i gael canolfan gymdeithasol (Institiwt) ym Mynydd Llandegai. Cafwyd tir, sef Pen-rhiw, ar brydles o swllt y flwyddyn gan yr Arglwydd Penrhyn ac fe ddechreuwyd adeiladu'r neuadd yn 1931.
- 04/07/1923: Priodas R. Williams Parry a Myfanwy. Aethant i fyw i Ffordd Ffrydlas ac ymhen rhyw flwyddyn i Haulfryn Carneddi, lle buont yn byw am 14 o flynyddoedd cyn symud i Goetmor yn 1938.

#### 1924

- 07/06/1924 (dydd Sadwrn): Seremoni Dadorchuddio a Chyflwyno'r Gogfologfn.
- 19/06/1924 (Iau): Agor y Pleasure Grounds ger Rhes Douglas gan Mrs Dr Pritchard.

#### 1925

- 12/01/1925 (Llun): Pwyllgor er uno'r gwahanol enwadau ym Methesda.

#### 1926 (tua)

- Cau Ysgol Glan Rhyd Idwal (a oedd yn eglwys ar y Sul – Eglwys Pen Llyn).
- Cyhoeddi Bethesda: Official Guide Book (Bethesda and Nant Ffrancon), Gol. D. J. Williams.

#### 1926

- 10/08/1926: Syrcas Broncho Bill yn y Gerddi Mawr (lle codwyd ffatri Austin Taylor yn 1965).
- Bysys Joseph Roberts, Castle House, yn cael eu bedyddio yn 'Purple Motors'. Dechreusai Joseph Roberts fusnes cario pobl efo cerbydau Ford (e.e. Ford Arvonnia a gariai 14 o bobl) ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf. Cariwyd y busnes ymlaen gan ei fab, T. J. Roberts. Bu T. J. Roberts (Tomi), yn rhedeg The Noted 6½d Bazaar ac yn farbwr yn Castle House a dyna sut y daethpwyd i alw'r byslys yn Fysys Tomi, byslys Tomi Barbar ac yn fsysys chwech a dima! Parhaodd ei blant – Harri a John, a'r pedair merch: Rose, Mary, Muriel a Jennie – â'r busnes (a werthwyd tua 1998 i Gwmni Arriva). Daeth Mr Tom Davies yn Rheolwr y cwmni pan briododd Mary – cawsant un ferch, Heulwen.

I'w barhau

## Gair neu ddau

### UN EILIAD

Erbyn i chi ddarllen hwn bydd dyddiau wedi mynd heibio. Ond heno, noson olaf mis Mehefin, nid dyddiau nac oriau na munudau sy'n mynd â'r sylw ond eiliadau. Wel, un eiliad a bod yn fanwl gywir. Mae'r term 'blwyddyn naid' yn gyfarwydd i ni, ond heno cawn 'eiliad naid' wrth i un eiliad gael ei hychwanegu at funud olaf y mis. Dechreuwyd ychwanegu'r 'eiliad naid' yn 1972 er mwyn cysoni'r amser a ddangosir ar ein clociau efo'r hyn a elwir yn 'amser atomig', a heno fydd y chweched 'eiliad naid' ar hugain ers hynny. Dair blynedd yn ôl y cafwyd y mwyaf diweddar ohonyn nhw.

Ond pa wahaniaeth a wnaiff un eiliad? Gwahaniaeth mawr, yn ôl y bobl sy'n deall y pethau yma. Pedair awr ar hugain yw'r amser a gymer y ddaear i gylchdroi. Ond weithiau, mae cylchdro'r ddaear yn arafu, ac mae angen ychwanegu'r 'eiliadau naid' o bryd i'w gilydd er mwyn cadw'r cyswllt hollbwysig rhwng amser a chylchdro'r ddaear. Wedi dweud hynny, mae rhai'n ofni y gall yr eiliad ychwanegol effeithio'n ddrwg ar systemau llywio awyrennau a throsglwyddiadau ariannol.

A pha wahaniaeth a wnaiff yr un eiliad i ni? Go brin y bydd neb ohonom yn cyflawni llawer o bwys yn yr un eiliad ychwanegol. Eiliad ychwanegol o gwsg fydd hi i lawer. Fyddaf fi fy hun ddim elwach, beth bynnag, gan y byddaf

wedi treulio eiliadau lawer (miloedd ohonyn nhw mewn gwirionedd!) yn llunio'r erthygl hon sy'n trafod yr un 'eiliad naid'.

Ac eto, mae'r eiliadau'n cyfrif, yn union fel mae ceniogau'n cyfrif, ac yn union fel mae geiriau bach a gweithredoedd bach yn cyfrif. Oherwydd trwy wneud y gorau o'r pethau bach y mae Duw'n eu rhoi i ni y byddwn yn ei wasanaethu Ef yn ffyddlon. Oherwydd cyfres o eiliadau yw'r oriau a'r dyddiau a roddodd Duw i ni. Casgliad o geiniogau yw'r punnoedd sydd gennym i'w defnyddio yng ngwasanaeth yr Efengyl. Ac yn amlach na heb, cyfres o eiriau a gweithredoedd bychain yw'r gwasanaeth mwyaf a roddwn i'r Arglwydd.

Ar un wedd, peth bychan a di-nod yw credu hefyd: credu yn Nuw a chredu yn ei Fab, Iesu Grist. I lawer, mae yna bethau mwy a phwysicach. Ond i'r Cristion, credu yw'r peth cyntaf, y peth sylfaenol, y peth pwysicaf o ddigon gan fod popeth arall yn dibynnu arno ac yn deillio ohono. Trwy gredu y deuw'n i adnabod Duw ac y'n gwneir yn blant iddo. Trwy gredu y derbyniwn faddeuant ac y cawn ein gwaredu oddi wrth bechod. Trwy gredu y derbyniwn nerth a gras i'n galluogi i fyw yn ffyddlon i'r Arglwydd ac er clod iddo.

A diolch am hynny, mae pethau bychain a di-nod yn cyfrif i Dduw. Fel arall, pa obaith fyddai i'r un ohonom?

JOHN PRITCHARD

## Partneriaeth Ogwen Mewn Undeb Mae Nerth!

Mae Partneriaeth Ogwen wedi dod â gwasanaeth arall yn ôl i Ddyffryn Ogwen.

Agorodd Undeb Credyd Gogledd Cymru bwynt casglu newydd yn Swyddfa Partneriaeth Ogwen ddiwedd Mehefin a bydd y gwasanaeth wythnosol yn rhoi cyfle i bobl y Dyffryn gynilo heb orfod teithio i fanciau'r Stryd Fawr ym Mangor.

Mae'r gwasanaeth yn cynnwys agor cyfrifon newydd a thalu arian i mewn i gyfrifon. Cydlynir y gwasanaeth gan y Bartneriaeth ac mae'r sesiynau wythnosol yn cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr o'r gymuned.

Oriau agor y gwasanaeth ar hyn o bryd yw pwynt casglu wythnosol 12.30-2.30 bob dydd Mawrth. Os bydd galw yn cynyddu, byddwn yn ceisio ein gorau i ymestyn yr oriau agor. Am fwy o wybodaeth neu am gyfleoedd gwirfoddoli, cysylltwch â Meleri Davies, Prif Swyddog Partneriaeth Ogwen ar 01248 602131 neu galwch heibio'r swyddfa.



Dyma lun o Paul Rowlinson a Jon Stammers, dau aelod o'r tîm gwirfoddoli, wrth eu gwaith.

## Plaid Cymru, Cangen Dyffryn Ogwen

Cadeiriwyd cyfarfod mis Mehefin gan y Cynghorydd Rheinallt Puw. Wedi prysurdeb yr Etholiad Cyffredinol roedd yn braf cael dod yn ôl at gyfarfod arferol a rhoi'r rhan fwyaf o'r amser i drin a thrafod materion yn ymwneud â Dyffryn Ogwen.

Llongyfarchwyd y Cynghorydd Paul Rowlinson ar ei ethol yn Gadeirydd Cyngor Cymuned Bethesda.

Cynhaliwyd stondin lwyddiannus yn Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen ar Sadwrn 13 Mehefin. Diolchwyd yn arbennig i'r Cynghorydd Dafydd Owen a'r Cynghorydd Dafydd Meurig am eu holl waith ar y diwrnod. Braf oedd gweld Alun Ffred Jones, A.C. wedi dod i'r Sioe ac yn cael croeso gan hwn a'r llall wrth fynd o gwmpas y maes.

Soniodd y Cynghorydd Ann Williams am y cyfarfod a fu ynghylch dyfodol y Llyfrgell gyda Sian Shakespear. Ymgynghoriad annibynnol oedd hwn gan nodi'r gwahanol opsiynau. Bu hefyd mewn cyfarfod i drafod trafnidiaeth yn Nyffryn Ogwen gyda Swyddogion Cyngor Sir Gwynedd a Swyddog o Gwmni Arriva.

Cynorthwywyd Ann Williams i beintio dros y graffiti oedd o gwmpas y lle gan Jonathan Neale, Swyddog Trefi Tacus. Diolchwyd iddynt gan amryw am wneud y gwaith hwn.

Codwyd y mater o barcio ceir wrth Llyn Ogwen gan y Cynghorydd Dafydd Meurig. Roedd yn pryderu'n fawr o weld nifer y ceir sydd yn parcio yno dros benwythnos, er enghraifft. Ym mis Awst fe fydd yn cyfarfod gydag aelodau o Gyngor Sir Gwynedd, Cyngor Sir Conwy a Pharc Cenedlaethol Eryri i drafod y mater.

Mae'r Gangen eisoes yn paratoi at Etholiadau'r Cynulliad fis Mai nesaf, ac yn edrych ymlaen at groesawu Siân Gwenllïan i Ddyffryn Ogwen ym mis Medi.

## Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Ar ddechrau Mehefin aeth rhai o aelodau'r gangen i gyfarfod o Blaid Lafur Gwynedd yn Nhremadog i dderbyn adroddiad gan Grŵp Llafur Cyngor Gwynedd i drafod materion sirol (er enghraifft bydd Plaid Cymru yn nesáu at fod yn y mwyafrif ar Gyngor Gwynedd os llwyddant i ddal gafael ar sedd Morfa Nefyn yn yr isetholiad am bod rhai cynghorwyr wedi symud o Lais Gwynedd i Blaid Cymru) ac i ddechrau paratoi ar gyfer yr etholiadau sirol yn 2017.

Tua chanol y mis trefnwyd stondin yn Sioe Amaethyddol y Dyffryn, gyda thoffi, cacennau, diodydd, sticeri a thaflenni am ddim. Hefyd llwyddwyd i werthu nifer barchus o docynnau raffl yn y sioe. Da oedd cael presenodeb Siôn Jones, ymgeisydd Plaid Lafur Arfon yn etholiad Cynulliad Cymru a siaradodd gyda'r etholwyr yn y gazebo ac o gwmpas y cae. Da hefyd oedd clywed am lwyddiant Kate Midwinter a ddaeth yn ail agos i Blaid Cymru yn ffug-etholiad Ysgol Dyffryn Ogwen.

Yn ogystal â hyn aeth nifer o aelodau'r gangen i gyfarfod o Blaid Lafur Arfon ym Methel i dderbyn adroddiad am waith canghennau Plaid Lafur Gwynedd a Phlaid Lafur Gogledd Cymru, i drafod canlyniad yr etholiad cyffredinol ac i ddechrau paratoi ar gyfer etholiad Cynulliad Cymru a gynhelir yn 2016.

Calonogol oedd clywed bod nifer sylweddol wedi ymaelodi â'r gangen ers yr etholiad cyffredinol, gan gynnwys pobl ifanc.

Cynhelir cyfarfod nesaf y gangen am 7.30 yr hwyr, nos Fercher 23 Gorffennaf yng Nghanolfan Cefnfaes ac un o'r eitemau dan drafodaeth fydd gwneud trefniadau ar gyfer cyfarfodydd y gangen yn 2015-16.

## Cyngor Cymuned Bethesda

Cafwyd adroddiad am gyfarfod blynyddol y Cyngor ar 21 Mai yn rhifyn diwethaf Llais Ogwan.

Cynhaliwyd cyfarfod misol y Cyngor yn syth ar ôl y cyfarfod hwnnw. Croesawyd y ffaith bod Partneriaeth Ogwen wedi penodi Mrs Donna Watts i weithio fel Clerc i dri Chyngor Cymuned y Dyffryn, sef Cyngor Bethesda, Cyngor Llanllechid a Chyngor Llandygai. Mae hi bellach yn gweithio yn Swyddfa Partneriaeth Ogwen, 26 Stryd Fawr, ar ddydd Mawrth, dydd Iau a dydd Gwener. Croesawyd Donna i'r cyfarfod.

Gofynnwyd i'r Clerc ofyn i'r Cyngor Sir orfodi'r llinellau melyn ar Stryd Fawr Bethesda a thynnu sylw'r heddlu at barcio anghyfrifol yng Nghilfodan. Croesawyd y ffaith bod Partneriaeth Ogwen wedi cyflwyno cais cynllunio i Gyngor Gwynedd ar gyfer y cynllun i gynhyrchu trydan dŵr ac anogwyd pawb i ysgrifennu at y Cyngor Sir i gefnogi'r fenter gymunedol gyffrous hon.

Cafwyd llythyr gan Gyngor Gwynedd yn gwahodd aelodau i fynychu cyfarfodydd Her Gwynedd, i drafod y gwasanaethau y bydd y Cyngor Sir yn gorfod eu torri yn wyneb y toriadau llym yn y cyllid y mae'n ei dderbyn gan Lywodraeth

Cymru. Dewiswyd tri aelod i fynychu'r cyfarfodydd hyn ym mis Gorffennaf.

Cynhaliwyd cyfarfod misol nesaf y Cyngor ar 25 Mehefin, pan ddaeth Mr Andre Lomozik i dynnu llun aelodau'r Cyngor. Diolchwyd i Mr Dafydd Meurig am ei waith caled fel clerch dros dro.

Nodwyd bod dau wasanaeth gwerthfawr newydd wedi agor yn swyddfa Partneriaeth Ogwen. Mae Undeb Credyd Gogledd Cymru wedi agor pwynt casglu rhwng 12.30 a 2.30 bob prynhawn dydd Mawrth, sy'n cynnig ffordd gyfleus o gynilo arian a chael benthyciadau am bris rhesymol. Yn y swyddfa mae gwasanaeth cynghori Arbed Ynni Nyth hefyd ar gael i'n helpu i leihau ein biliau ynni.

Mae Siop Ogwen, menter ar y cyd rhwng Partneriaeth Ogwen a Neuadd Ogwen, wedi agor a phenderfynodd y Cyngor wneud cyfraniad at gostau datblygu'r fenter a phrynu stoc ehangach o lyfrau.

Derbyniwyd llythyr gan Gylch yr Iaith a thri mudiad arall yn nodi eu bod yn gofyn i Gyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn adolygu niferoedd y tai newydd yn y cynllun datblygu drafft. Penderfynodd Cyngor Bethesda gefnogi cais y mudiadau hyn. Penderfynodd y Cyngor gefnogi hefyd Darganfod Dyffryn Ogwen a Phrosiect Hongian, a fydd yn dod â buddiannau i'r ardal.

**Os am gynnal bore coffi neu ddigwyddiad arall yn Neuadd Ogwen cysylltwch gyda Dilwyn Llwyd drwy e-bost**  
**post@neuaddogwen.com neu drwy ymweld â'r neuadd i drafod.**

NEUADD  
OGWEN

**I hysbysebu yn y Llais neu i dynnu sylw at eich gweithgareddau yn yr ardal, gan gynnwys Dyddiadur y Dyffryn, cysylltwch â'r Trefnydd Hysbysebion:**

Neville Hughes,  
14 Pant,  
Bethesda LL57 3PA  
☎ 600853

Ymgwymerwr adeiladu a  
gwaith saer

## Ronald Jones

Bron Arfon, Llanllechid  
Bethesda

☎ 01248 601052

## SAMARIAID

Mae  
Llinell Gymraeg

**0300 123 3011**

ar gael bob nos rhwng  
7.00pm ac 11.00pm

## Blodau Hyfryd

7 Rhes Buddug, Bethesda

☎ 602112 (gyda'r nos 602767)

*Blodau ar gyfer pob achlysur*

Priodasau, Angladdau ayyb  
Ffres a Sidan

*Gwasanaeth 'Archebu a Danfon'*

Arbenigwr mewn lloriau coed caled

**A.G.L.**  
Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a  
selio lloriau coed caled,  
adnewyddu lloriau  
gwreiddiol a chyweirio  
lloriau sydd wedi eu  
difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.

Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

## WU SHU KWAN

Bocsio Cic Tsieineaidd (Kung Fu)

Dosbarthiadau  
yng Nghanolfan  
Gymdeithasol  
Tregarth bob  
nos Fercher  
6.30 tan 8.30

Un sesiwn am ddim os dewch  
â'r hysbyseb hwn hefo chi

♦ Croeso i bawb, yn arbennig dysgwyr ♦  
Manylion gan Jake neu Elena  
Fitzpatrick - 01248 602416  
neu galwch heibio'r dosbarth

## J. TEMPLE MORRIS A'I FAB

Pob Math o Waliau Cerrig,  
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.  
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.

**07770 900531**

**01248 600282**

jtemplemorris@btinternet.com

BYSUS  
*D. J. Owens*  
RHIWLAS

**01248 361044 a 07771 634195**



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER  
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -  
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATI.

**Bysus Gwyrdd Rhiwlas**

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY  
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

## Modurdy Central

Ceir ail-law ar werth  
M.O.T. ar gael  
Hefyd

Trwsio a Gwasanaeth  
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda  
☎ 601031

Sefydlwyd

1969

**m.hughes**  
**a'i fab**

**CONTRACTWYR TOI**

2 Hen Aelwyd, Bethesda

☎ 600633

☎ (symudol) 07702 583765

Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.  
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.  
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am  
waith diguro.

## Cerbydau Penrhyn

**CABIAU A BYSIAU MINI**

Ffôn: (01248) 600072

Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd  
Contractau

Contractwyr i Wasanaeth  
Ambiwlans Gogledd Cymru

## CHRIS GRIFFITHS

Trwsio ffenestri upvc, drysau,  
cloeau, bachau, twll llythyrau ac  
unedau gwyrdd wedi chwythu



18 Mill Lodge  
Llandegfan  
Ynys Môn  
LL59 5YB

☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

## Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel  
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr  
Bangor  
Gwynedd  
(01248) 370224

*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol  
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

Swyddfeydd eraill:

Llangefni Amlwch Benllech  
(01248) 723106 (01407) 831777 (01248) 852782

Caernarfon Pwllheli  
(01248) 673616 (01758) 703000

**BARBWR OGWEN**



Torri Gwalltiau  
Dynion a Phlant  
gan Alison

## MODURDY FFRYDLAS



Profion  
M.O.T.

Perchennog  
A. LI. Williams

**Stryd Fawr, Bethesda**  
♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO  
♦ TEIARS A BATRIS ♦  
GWASANAETH TORRI I LAWYR  
NEU DDAMWAIN

☎ 600723  
Ffacs: 605068



# Croesair Gorffennaf/Awst 2015

AR DRAWS

- 4 Ofn sêr yn y niwl ? Daw a'r hen bunt i chi os edrychwch yn ofalus (6)
- 5 Dweud wrth yr afon ddeheuol am beidio gwneud sŵn cyn dechrau edliw (4)
- 7 Dim llwyddiant o gwbl (7)
- 10 Yn y cwm od y syrthiais (5)
- 11 Chwirydd crefyddol (7)
- 12 Brig y tabl. Dyna ble mae Cymru am fod wrth ei chwarae (5)
- 14 Af ddynol wrth wingo'n ôl (7)
- 15 Siawns (5)
- 16 "Gwae inni wybod y geiriau heb ----- y Gair" (Gwenallt) (7)
- 20 Yr oedd yn gwybod (5)
- 21 Rhaid i'r cerddwyr fynd ----- -- drwy'r giat fochyn gul (5,2)
- 22 Heb fod yn anodd (4)
- 23 Rhag i'r beirniad 16 Ar Draws ymgais y cystadleuydd (6)

I LAWR

- 1 Romulus i Remus neu Jacob i Esau (5)
- 2 Ennill (anagram) (5)
- 3 Glaw ysbeidiol (7)
- 4 Un gyfrwys yw Elsi pan mae'n chwil (4)
- 6 Cynnig person i gynrychioli (6)
- 8 Dod i'w lawn dwf (7)
- 9 Rwy'n dweud y drefn a dwrdio'n hallt (7)

- 10 Ar lafar yn lleol am y cantorion enwog o Rosllannerchrugog (3,1,3)
- 13 Abl ac addas i'r gwaith (6)
- 14 Talaith yn UDA (7)
- 17 Bydded y sacrament heb rwystr (5)
- 18 Fel y fagddu (5)
- 19 Sypyn o flodau (4)

ATEBION CROESAIR MEHEFIN 2015


AR DRAWS 1 Bratiog, 5 Llymru, 8 Asesu, 9 Ysgwyddo, 10 Draenen, 11 Diogi, 12 Rhethreg, 14 Sglaig, 17 Sugno, 19 Abererch, 22 Mawrion, 23 Lladd-dy, 24 Lenin, 25 Glo Glân

I LAWR 1 Brawd, 2 Aberarth, 3 Ieuan, 4 Gwyddno, 5 Llygadog, 6 Mwydo, 7 Un Oriog, 12 Rhesymol, 13 Emosiwn, 15 Angerddol, 16 Mawnog, 18 Gwyn, 20 Eillio 21 Chwyrn

Un camgymeriad a gafwyd yng nghroesair Mehefin sef 'rhythied' yn lle'r ateb cywir 'rhethreg'.

Cafwyd atebion hollol gywir gan Ellen Whitehouse, Birmingham; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Rita Bullock, Bethesda; Elfed Evans, Karen a Tom Williams, Llanllechid; Gareth William Jones, Bow Street; Elizabeth Buckley, Dulcie Roberts, Tregarth; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Derek a Mai Jones, Dilys Parry, Rhiwlas; E. E. Roberts, Llanberis; Doris Shaw, Bangor; Gaynor Elis-Williams, Carneddi.

Ond yn fuddugol y tro hwn y mae ymgais Sara a Gareth Oliver, Ty'n Clawdd, Tregarth, Bangor LL57 4AL. Da iawn chi.



Atebion erbyn 14 Awst i 'Croesair Gorffennaf/Awst', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda. LL57 3PD

Enw:

Cyfeiriad:

## Wythnos Patagonia

26 Gorffennaf - 1 Awst

Dathlu 150 o flynyddoedd ers i'r Cymry cyntaf sefydlu'r Wladfa ym Mhatagonia

#150patagonia

Ar deledu, ar-lein, ar alw s4c.cymru

Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?

EGLWYS UNEDIG  
BETHESDA

LLENWI'R CWPAN

Dewch am sgwrs a phaned

Bob bore dydd Iau  
rhwng 10.00 o'r gloch a  
hanner dydd

Sesiynau Siarad i  
Ddysgwyr

11-12, Ail Ddydd Sadwrn  
bob mis ym  
Marchnad Ogwen  
11-12, 4ydd Dydd Sadwrn  
bob mis yng Nghaffi  
Fitzpatrick's

Am fwy o wybodaeth neu i  
wirfoddoli yn y sesiynau  
siarad, cysylltwch â Meleri ar  
01248 602131

Canolfan Cefnfaes  
BETHESDA  
GYRFA CHWIST

28 Gorffennaf  
8, 22 a 29 Medi  
am 7.00 o'r gloch

Dewch i fwynhau  
nosweithiau difyr

Marchnad Ogwen

Yr ail ddydd Sadwrn yn fisol

**Awst 8fed**  
Neuadd Ogwen  
9.30am - 1.30pm

**Medi 12fed**  
Neuadd Ogwen  
9.30am - 1.30pm

**Hydref 10fed**  
Neuadd Ogwen  
9.30am - 1.30pm

**Bwydydd, Crefftau, Caffi**

[www.marchnadogwen.co.uk](http://www.marchnadogwen.co.uk)  
Twitter #marchnadogwen  
Facebook

Cronfa Goffa Tracy Smith

BORE COFFI  
yng Nghanolfan Cefnfaes

Sadwrn, 25 Gorffennaf  
10.00 tan 12.00

Canolfan Cefnfaes

BORE COFFI

Pwyllgor Talgai  
Sadwrn 5 Medi  
10.00 tan 12.00

Canolfan Cefnfaes

BORE COFFI

Eglwys y Santes Fair a'r  
Santes Anne  
Sadwrn 12 Medi  
10.00 tan 12.00

Canolfan Cefnfaes

BORE COFFI

Eglwys Crist  
Glanogwen

Sadwrn 19 Medi  
10.00 tan 12.00

Theatr Bara Caws  
yn cyflwyno

NO WÊ

gan Barry 'Archie' Jones

CLWB RYGBI BETHESDA

Nos Wener a Nos Sadwrn,  
31 o Orffennaf a 1 o Awst am 7.30.

YN EISIAU!  
GWIRFODDOLWYR!

Mae Neuadd Ogwen angen mwy o  
wirfoddolwyr i helpu yn ystod ein  
digwyddiadau.

Mae yna amryw o feysydd gallwch  
wirfoddoli ynddynt, sef:

- Gwerthu Tocynnau
- Gwirfoddoli yn y Bar
- Gwirfoddoli yn y Caffi
- Rheoli'r Taflunydd yn ein  
nosweithiau ffilm
- Stiwardio

Mae gwirfoddoli yn gyfle da i  
gryfhau eich CV, i gymdeithasu, ac  
yn gyfle i fod yn rhan o brosiect  
arbennig yma yn Nyffryn Ogwen.

Cofiwch: Eich Neuadd chi yw hon!

Am ragor o wybodaeth:  
Cysylltwch ag Owain ar 01248 208  
485 neu 07442 532 746  
[owain@neuaddogwen.com](mailto:owain@neuaddogwen.com)  
neu gyrrwch neges drwy dudalen  
Facebook y Neuadd

Neuadd Ogwen  
FFAIR GREFFTAU

Sadwrn 22 Awst  
am 9.30

Mynediad am ddim



Undeb  
Credyd  
Gogledd  
Cymru

Pwynt Casglu Undeb Credyd  
Gogledd Cymru

Swyddfa Partneriaeth Ogwen

26 Stryd Fawr, Bethesda  
Bob Dydd Mawrth : 12.30 –  
2.30

Gwasanaeth Newydd wedi  
dechrau ers 30.6.2015

Gwybodaeth:  
[partneriaeth@ogwen.org](mailto:partneriaeth@ogwen.org) neu  
01248 602131

DYDDIADUR BOREAU COFFI 2015

25 Gorffennaf - Cefnfaes – Cronfa Goffa Tracy Smith.

05 Medi – Cefnfaes - Pwyllgor Talgai.

12 Medi – Cefnfaes - Eglwys St. Mair a St. Anne, Mynydd  
Llandygai.

19 Medi – Cefnfaes – Eglwys Glanogwen.

26 Medi – Neuadd Ogwen - Plaid Cymru.

17 Hydref – Cefnfaes – Sefydliad y Merched Carneddi.

31 Hydref – Neuadd Ogwen - Eisteddfod D. Ogwen.

28 Tachwedd – Neuadd Ogwen – Ffair Nadolig y Blaid Lafur.

Pwysig

*Os ydych yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr  
uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag.*

*Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon.*

*Bydd yn cael ei diweddaru ac yn ymddangos pob mis.*

*Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).*



Hywel Williams  
Aelod Seneddol  
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei  
drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa,  
yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa  
ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR  
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE  
☎ (01286) 672 076

[williamsy@parliament.uk](mailto:williamsy@parliament.uk)



Alun Ffred Jones  
Aelod Cynulliad  
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei  
drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa,  
yna cysylltwch ag o yn ei swyddfa ym  
Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR  
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE  
☎ (01286) 672 076

[alunffred.jones@cymru.gov.uk](mailto:alunffred.jones@cymru.gov.uk)

Talentau Lleol yn disgleirio

Yng Nghlwb Criced Bethesda nos Wener, 3 Gorffennaf fe gynhaliwyd noson i arddangos talentau lleol y Dyffryn. Disgyblion ysgolion Abercaseg, Penybryn, Llanllechid a Dyffryn Ogwen oedd yn cymryd rhan ac fe gafwyd gwledd o adloniant ganddynt gyda chorau o ysgolion Llanllechid a Dyffryn Ogwen a grŵp o offerynwyr o Ysgol Penybryn. Yn ychwanegol, fe gafwyd unigolion yn perfformio gydag offerynnau mor amrywiol â'r fflwt, y piano, y ffidil, y corn a'r soddgrwth. Clywyd unawdwy'r lleisiol yn cyflwyno darnau peraidd iawn hefyd. Roedd y disgyblion yno yng nghwmni eu teuluoedd a'u hathrawon gyda Mr Huw Edward Jones yn cyfeilio i blant Ysgol Llanllechid, Mrs Beti Rhys yn gofalu am blant Ysgol Penybryn a Mr Hefin Evans yn arwain disgyblion Dyffryn Ogwen gyda Mr Alun Llwyd yn cyfeilio iddynt.

Mwynhaodd y gynulleidfa niferus oedd yn bresennol eitemau amrywiol iawn ac fe gafodd pawb farbeciw wedi ei baratoi gan Walter Williams, Maldwyn Pritchard a John Baston. Meddai un o'r rhieni oedd yno, "Dyma noson flasus ar fwy nag un ystyr."

Daeth y noson i ben gyda chyfraniad nodedig arall gan Hogia'r Bonc. Gellir dibynnu ar y parti hwn i gyflwyno amrywiaeth o ganeuon llon a lleddf mewn dull proffesiynol a llyfn ac maent bob amser yn barod eu cymwynas i bob math o achosion da hyd a lled Dyffryn Ogwen a thu hwnt.

Dymunwn hefyd estyn ein diolchgarwch i Dewi, Morfudd, Mannon a Bryan o bwyllgor Clwb Criced a Bowlio Bethesda am eu gwaith caled hwythau i sicrhau llwyddiant noson mor gofiadwy.

Derfel Roberts, Trefnydd

Chwilair

Gorffennaf 2015

Ymddiheuriadau! Oherwydd amgylchiadau, ni fydd y chwilair yn ymddangos y mis yma. Roedd atebion Rosemary Williams, ar gyfer chwilair Mai yn gywir, ond roedd y post brenhinol yn hwyr yn taro'r atebion trwy'r drws, er mai dosbarth cyntaf oedd ar yr amlen. Yn ffodus roedd atebion Rosemary a phawb arall wedi cyrraedd mewn pryd y mis diwethaf, ond yn anffodus nid oedd eich atebion yn gywir, Rosemary. Bydd y chwilair nesaf yn ymddangos yn rhifyn Medi.

Diolch i bawb am anfon atebion ar gyfer Mehefin. Dim ond pedwar ohonoch gafodd yr atebion cywir. **Dyma atebion Mehefin:-** Afanc; Arth; Blaidd; Carw; Ebol; Eliffant; Llygoden; Mochyn; Mul; Tarw; Wiwer Goch; Ysgyfarnog. Dyma enwau'r rhai a gafodd yr ateb cywir:- Doris Shaw, Bangor; Elizabeth Buckley, Tregarth; Elfed Bullock, Maes y Garnedd; Gwenda Roberts, Rhosmeirch. **Enillydd Mehefin oedd:-** Gwenda Roberts, Gorwel Deg, Rhosmeirch, Ynys Môn, LL77 7SJ.

CADAIR UNIGRYW

Efallai i chi weld Gaynor Elis-Williams, Carneddi, ei brawd David ac aelodau eraill o'r teulu ar Heno ar S4C yn ddiweddar.

Cawsant eu holi gan Gerallt Pennant ar dir Plas Newydd, Sir Fôn, a hynny ar ôl iddyn nhw gael eu ffilmio ar gyfer pennod o gyfres yr Antiques Roadshow. Roedden nhw wedi mynd â chadair unigryw o arian i'w dangos ar y rhaglen hen greiriau, ac roedd cynhyrchwyr y rhaglen wedi dangos cryn ddiddordeb ynddi. Cyn i'r rhaglen ymddangos ar y BBC yn yr hydref, gall Llais Ogwan ddatgelu peth o'r hanes difyr.



**Eisteddfod 1916 a'r Rhyfel Mawr**  
Cadair Eisteddfod Genedlaethol Aberystwyth, 1916 ydi'r gadair fach o arian pur, sydd ryw 7 modfedd o uchder ac sydd â phatrymau cain arni.

Y Parchedig John Ellis Williams, taid Gaynor, ei chwiorydd Elinor a Rhiannon a'u brodyr Gruff a David, a enillodd y gadair, a hynny am gyfansoddi awdl ar y teitl Ystrad Fflur.

Yr hanes sydd wedi ei drosglwyddo oddi mewn i'r teulu yw fod y gadair arian wedi ei chynnig yn lle'r gadair arferol o bren am fod yr holl bren yn cael ei allforio i ffosydd y Rhyfel Byd Cyntaf ar y pryd. Doedd arbenigwr y rhaglen, Lisa Lloyd ddim wedi ei hargyhoeddi o'r stori hon gan fod arian hefyd yn brin yn ystod y Rhyfel. Er hyn, roedd ganddi ddiddordeb mawr yn y gadair am mai hi yw'r unig gadair fechan o'i bath i'w chyflwyno yn yr Eisteddfod Genedlaethol fodern.



O'r chwith: Gaynor, Rhiannon (yn y blaen), Eleri a David Elis-Williams gyda'r gadair

Hedd Wyn yn ail agos

Yn ail agos i John Ellis Williams yn 1916 roedd Hedd Wyn. Mae Hedd Wyn wedi dod yn enwog am iddo ennill y gadair y flwyddyn ddilynol, yn Eisteddfod Penbedw, 1917 – a chael ei ladd yn y Rhyfel cyn cael ei gadeirio. Daeth y gadair honno'n adnabyddus fel y Gadair Ddu. Mae'n debyg bod un o'r tri beirniad am gadeirio Hedd Wyn yn 1916, ond mai awdl John Ellis Williams, dan y ffugenw Eldon, a aeth â hi yn y diwedd.

Pwy oedd 'Bardd y Gadair Arian'?



Y Parch John Ellis Williams

Un o Forfa Nefyn oedd John Ellis Williams yn wreiddiol. Bu'n rhaid iddo ef a'i frawd ddechrau gweithio'n ifanc ar ôl colli eu tad yn gynnar. Cafodd John brentisiaeth fel teiliwr, a gweithiodd fel teiliwr cyn mynd i'r weinidogaeth a dod yn weinidog capel Pendref, Bangor.

Mae'n debyg ei fod yn ŵr diymhongar iawn. Mae Gaynor yn sôn am ei nain yn dweud ei hanes: "Mi fyddai bob amser yn cario'r gwniadur yr oedd o'n ei ddefnyddio fel teiliwr yn ei boced.

Mi fyddai'n ei gyffwrdd cyn aros i sgwrsio efo rhywun ar y stryd er mwyn ei atgoffa ei hun o'i wreiddiau gwerinol, a rhwystro'i hun rhag ymffrostio". Chafodd Gaynor ddim cyfarfod â'i thaid – fe fu farw pan oedd ei thad, Myrvin Elis-Williams, yn 12 oed.

Diwrnod i'w gofio

Cafodd Gaynor, ei brawd David ("archifydd y teulu"), ei chwaer Rhiannon a'i nith, Eleri, ddiwrnod i'w drysori ym Mhlas Newydd.

"Mi wnes i'i fwynhau o'n fwy nag ron i wedi'i feddwl," meddai Gaynor. "Roedd hi'n ddiwrnod crasboeth. Ar ôl i ni recordio'n darn ni, mi gawson ni grwydro. Roedd yr arbenigwyr mor gwrtais efo pawb, dim ots beth oedd ganddyn nhw i'w ddangos, a hynny am oriau yn y gwres."

Beth, meddech chi, ydi gwerth y gadair fach arian heddiw? Bydd hynny'n cael ei ddatgelu ar yr Antiques Roadshow cyn diwedd y flwyddyn. Mae'n "werth teg", yn ôl Gaynor; er hynny, dydy'r teulu ddim am ei gwerthu.

Marchnad Ogwen

Rydym yn barod i'ch croesawu i Farchnad Awst! Dewch draw i Neuadd Ogwen o 9.30 - 1.30 ar yr 8fed. Mae digon o gynnyrch lleol - yn fwydydd a chrefftau - ar gael.

Mae braidd yn fuan i sôn am y Nadolig efallai, ond mae dwy Farchnad Nadolig ar y gweill ac wedi eu trefnu yn barod. Bydd un Farchnad nos ar 25 Tachwedd a'r llall fel arfer ar yr ail Sadwrn yn Rhagfyr, sef y 12fed. Bydd y Farchnad nos yn fenter newydd gennym ac mae nifer wedi dangos diddordeb ac yn awyddus i deimlo naws Nadoligaidd y noson. Yn Neuadd Ogwen y bydd y Farchnad nos. Bydd mwy o fanylion yn Llais Ogwan Medi, ac ar ein gwefan wrth gwrs.

Gan na fydd Llais Ogwan yn ymddangos ym mis Awst, dyma fanylion y Stondinau dros dro am Awst a Medi.

Stondin Elusen Awst yw Eglwys St Ann a St Mair, Mynydd Llandygai ac ym Marchnad Medi, bydd Eglwys St Tegai. Yr un nesaf sy'n rhydd yw Ionawr nesaf (mae Mawrth nesaf wedi ei llogi).

Bydd Y Stondin 'Un Tro' ym mis Awst yng ngofal Gemwaith Duvis. Mae un Medi yn rhydd, ond Hydref a Thachwedd wedi eu llogi.

Mae gwybodaeth gyfredol am y Farchnad ar ein gwefan [www.marchnadogwen.co.uk](http://www.marchnadogwen.co.uk) neu gan aelodau o'r Pwyllgor yn y Farchnad bob mis. Croeso cynnes.

# GAIR O'R DOSBARTH

## Ysgol Dyffryn Ogwen

### Cyflwyno Proffil Personol

Ddydd Gwener, 19 Mehefin, cynhaliwyd cyfarfod i gyflwyno Proffiliau Personol i ddisgyblion blwyddyn 11 ac 13 cyn gadael yr ysgol. Braff oedd croesawu Mr Guto Wyn, ein cyn Bennaeth Cynorthwyol sydd erbyn hyn yn Ddirprwy yn Ysgol Glan y Môr fel ein gŵr gwadd. Mae'n draddodiad bellach ers blyneddau i'r disgyblion wisgo'u dillad gorau ar gyfer y cyfarfod, roedd pob un yn hynod o smart! Cafwyd cyflwyniad ar y piano gan Katie Midwinter, unawd lleisiol 'Harbwr Diogel' gan Samantha Lewis a phedwarawd lleisiol gan Ceri Hulme, Manon Hughes, Rhiannon Llwyd a Math Owen. Canodd bechgyn blwyddyn 11 'Fflat Huw Puw' a pharti canu blwyddyn 11 'Fix You'. Braff iawn oedd gweld y neuadd yn orlawn o rieni a ffrindiau. Cyflwynwyd anrhegion i'r athrawon dosbarth gan y disgyblion fel arwydd o'u gwerthfawrogiad. Diolch i bawb a gefnogodd y seremoni.



Casey Briggs, Adam Boggs a Chris Bareham



Seirian Puw, Lucy Robinson a Kyla Davies

### Ymweliad Blwyddyn 6

Bu 77 o ddisgyblion sy'n dechrau ym mlwyddyn 7 ym mis Medi, yma am ddiwrnod. Cawsant cyfle i flasgu gwersi Hanes, Mathemateg a Chelf a chael cyfnod yn eu dosbarthiadau cofrestru newydd. Edrychwn ymlaen at eu croesawu!

### Noson Talentau Lleol

Bu nifer o ddisgyblion yr ysgol yn perfformio mewn noson talentau lleol yn y Clwb Criced ar nos Wener, 3 Gorffennaf. Fe ganodd y côr ddwy gân, 'Dod ar fy Mhen' a 'Byd yn Un' ('World in Union'). Mae'r côr wedi cael ei ddewis i berfformio yn un o seremonïau croeso Cwpan Rygbi'r Byd yn Abertawe ym mis Medi ac felly mi roedd cynnwys 'Byd yn Un' yn addas iawn!

Bu cyflwyniadau unigol hefyd gan ddau o fechgyn yr ysgol. Perfformiodd Gwydion Rhys ar y sielo a chanodd Math Owen unawd adnabyddus 'Mab y Mynydd'. Llongyfarchwyd Math ar gael ei ddewis i berfformio yn addasiad Cymraeg 'Les Misérables' fydd yn cael ei lwyfannu yng Nghanolfan y Mileniwm yng Nghaerdydd yn fuan.

### Seremoni Gwobrwyo Chwaraeon Gwynedd

Cafodd y côr wahoddiad i berfformio yn seremoni wobrwyo chwaraeon Gwynedd a Môn ym Mwmars nos Iau, 9 Gorffennaf. Roedd y seremoni yn un bwysig gydag is-reolwr tîm pêl-droed Cymru, Osian

Roberts, yno fel siaradwr gwadd. Gwnaeth y côr argraff arbennig gan ganu 'Byd yn Un' a 'Dal fy Llaw' (cyfieithiad o 'Lean on Me').



Côr yr ysgol

### Cwpan Rygbi'r y Byd

Ddydd Gwener, 26 Mehefin cafodd dros gant o ddisgyblion fynd i groesawu cwpan Webb Ellis (cwpan rygbi'r byd) i Zipworld, Bethesda. Rhoddodd côr yr ysgol berfformiad arbennig. Cafodd nifer o'r disgyblion dynnu eu lluniau gyda'r gwpan a chawsant gyfarfod â Rupert Moon, cyn fewnwr Cymru.

### Taith Llundain Blwyddyn 12

Ar 25 Mehefin teithiodd criw o fyfyrwyr BAC blwyddyn 12 i Lundain. Dros ddau ddiwrnod, cawsant gyfle i weld prif atyniadau'r ddinas megis Palas Buckingham, y Mall, 10 Stryd Downing, China Town a Sgwâr Leicester. Cawsant daith tywys o amgylch y Senedd gan gael cyfle i wrando ar drafodaethau yn Nhŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi. Ar ôl gweithdy addysg, daeth yr Aelod Seneddol Hywel Williams i gael sgwrs â'r disgyblion. Bu cyfle i ymlacio yn y theatr gyda'r hwyr drwy wylïo'r sioe gerdd 'Charlie and the Chocolate Factory'.

Y diwrnod canlynol aethant i'r Amgueddfa Ryfel Imperialaidd i weld amrywiol arddangosfeydd megis Y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail, Effaith yr Holocaust, Rhyfel Afghanistan, a gwisgoedd mewn cyfnod o ddogni. Ar ôl ymlwybro drwy Covent Garden i weld doniau'r perfformwyr stryd a Sgwâr Trafalgar cafwyd cyfnod o siopa cyn dychwelyd adref.

### Mabolgampau

Cynhaliwyd mabolgampau'r ysgol ar gae'r ysgol ddydd Mawrth, 23 Mehefin a chafwyd diwrnod da o gystadlu yn y tywydd braff. Daeth nifer o ddisgyblion yn agos iawn at osod record newydd mewn ambell gamp ac edrychwn ymlaen at wobrwyo'r athletwyr a'r tŷ buddugol ym mis Medi.

### Presenoldeb 100%



Morgan Jones

Roedd un disgybl ym mlwyddyn 11 eleni nad oedd wedi colli'r un diwrnod o ysgol drwy ei holl gyfnod yn Ysgol Dyffryn Ogwen – tipyn o gamp. Roedd yn braff iawn gallu gwobrwyo Morgan Jones o Dregarth am bresenoldeb 100% dros gyfnod o bum mlynedd, a chafodd wobrwyo arbennig o iPad mini fel cydnabyddiaeth o'r gamp arbennig. Mae pob ysgol y dyddiau yma yn rhoi pwys mawr ar bresenoldeb da, ac mae Morgan yn esiampl i bawb.

### Ymweliad TOP Prifysgol Bangor

Fe fu criw o flynyddoedd 9 a 10 yn ymweld â gwahanol adrannau ym Mhrifysgol Bangor ar 30 Mehefin a Gorffennaf 1af yn dilyn rhaglen Dawn a Chyfle. Pwrpas yr ymweliad oedd cael blas ar fywyd prifysgol a chymryd rhan mewn gweithgareddau. Fe fu blwyddyn 9 yn casglu ac edrych ar bryfaid yn yr Ardd Fotanegol yn y bore ac yn cymryd rhan yn yr adran Gwyddorau Chwaraeon yn y prynhawn. Aeth blwyddyn 10 i weld yr Ysgolion Hanes, Gwyddorau Meddygol, Cyfrifiadureg a'r Gyfraith. Edrychwn ymlaen at fwy o ymweliadau â'r Brifysgol yn y dyfodol.

### Staff

Bydd Mrs Helen Holland a Mr Dafydd Harris Davies yn ein gadael ddiwedd y tymor. Mae'r ddau wedi bod ar staff yr ysgol ers dros ddeng mlynedd ac wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr iawn – Mrs Holland fel Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol a Mr Davies fel Gweithiwr Ieuenctid. Bydd colled fawr ar ôl y ddau. Dymunwn yn dda iawn iddynt i'r dyfodol, a diolch am eu gwasanaeth yn Ysgol Dyffryn Ogwen.



## Ysgol Pen-y-bryn

### Er cof



Mr Emyr Griffith a'r teulu yn cyflwyno Rhodd i Mrs Ceren Lloyd, Pennaeth Ysgol Pen-y-bryn er cof am y ddiweddar Elina Griffith. Bu Emyr ac Elina yn gweithio'n ddiwyd a hapus am flynyddoedd yn yr ysgol.

### Cynhadledd

Bu Luned a Tara yng nghynhadledd Ysgol-i-Ysgol GwE a gynhaliwyd yn Venue Cymru, Llandudno. Bu'r ddwy yn gwneud cyflwyniad (ddwywaith!) am adnoddau a strategaethau darllen Ysgol Pen-y-bryn i lond ystafell o bobl. Mae'r gwaith yn rhan o brosiect Ysgol-i-Ysgol ble mae ysgolion traws-sirol yn cydweithio a bu Ysgol Pen-y-bryn yn ffodus o gael gweithio gydag Ysgol Bro Gwydir, Llanrwst, Ysgol Bod Alaw, Bae Colwyn a llawer mwy er mwyn rhannu arferion da gyda darllen. Braff dros ben oedd cael athrawon, penaethiaid a staff GwE yn dod atom i ganmol Luned a Tara am eu cyflwyniad arbennig a'r ysgol am y gwaith caled a diddorol. Diwrnod diddorol dros ben!

### Glan-llyn

Cafwyd penwythnos gwerth chweil unwaith eto eleni yng Nglan-llyn. Roedd yr haul yn gwenu a chafwyd llond trol o hwyl yn gwneud amrywiaeth o weithgareddau. Bu blwyddyn 6 yn mwynhau eu hunain, a gwnaethant lawer o ffrindiau newydd gyda phlant y dalgylch! Diolch i Guto Williams ac Iwan Williams am wneud y penwythnos yn un cofiadwy.



### Rhyd Ddu

Diolch o galon i Morfudd Thomas a Cemlyn Jones am fynd â phlant blwyddyn 5 a 6 i Ryd Ddu. Aeth un criw i Abergwyngregyn gan ei bod yn addo glaw trwm! Roedd pawb wedi mwynhau'n arw.

### Tesco

Aeth dosbarth Tryfan i Tesco, Caernarfon ddiwedd y mis er mwyn dysgu am daith bwydydd o'r fferm i'r fforc. Dysgwyd am bwysigrwydd ailgylchu, cadw bwydydd yn oer, ac o ba wledydd y daw gwahanol fwydydd. Gafaelodd rhai plant dewr mewn pen pysgodyn ond uchafbwynt y trip oedd blasu ffrwythau, croissants a chawl llysiau. Bu'r plant yn bwyta cymaint fel nad oedd gan neb fawr o awydd cinio ar ôl cyrraedd yn ôl i'r ysgol.

### Criced

Wedi ennill cystadleuaeth Gwynedd ym Mhwillheli'n ddiweddar, aeth aelodau tîm criced yr Ysgol draw i Landrillo yn Rhos i chwarae yn rownd derfynol y gystadleuaeth 'Kwik Cricket'. Yno, roedd saith o dimau o wahanol ardaloedd cyn belled i ffwrdd â Cheredigion a Phowys, yn cystadlu'n erbyn ei gilydd ar faes Clwb Criced Bae Colwyn. Wedi colli'r ornest gyntaf yn erbyn tîm o ardal Wrecsam (tîm a enillodd yn y pen draw), bu'r hogiau'n fuddugol yng ngweddill eu

gemau gan orffen y gystadleuaeth yn y trydydd safle. Llongyfarchiadau mawr iddynt sef Huw Davies, Tomos Hughes, James Adl, Leon Wild, Daniel a Noa Hughes, Cameron Briggs, Dyfan Eames, Sean Robins ac Owain Williams. Diolch o galon i'r rhieni ffyddlon, sef Anette Adl, Nia Davies, Gareth Hughes a Steve Robins, am gludo'r hogiau ac am eu cefnogaeth ar hyd y blynyddoedd.



### Mabolgampau

Cynhaliwyd Mabolgampau'r Urdd, Talaith y Gogledd ym Mhare Eirias, Bae Colwyn ar yr un diwrnod â'r Criced. Wedi diwrnod caled yn maesu, batïo a bowlïo, newidiodd Huw Davies gamp, a chymryd rhan yn y ras 100m i hogiau. Roedd ei gyfoedion o Flwyddyn 6, Ela Oliver (600m) a Rory White (gwaywffon) hefyd yno. Yn cynrychioli Blwyddyn 4 roedd Robyn Wharton-Griffiths (naid hir). Bu'r athletwyr yn cystadlu'n galed unwaith eto yn y gwres, a daeth Robyn yn drydydd yn ei chystadleuaeth, gan neidio 3m 3cm, sef ei naid orau bersonol hi. Ardderchog yn wir – mae'r ysgol (a'ch rhieni) yn falch iawn ohonoch! Daliwch ati i gystadlu yn y dyfodol.

### Plant Pesda

Bu Plant Pesda yn addysgu plant blwyddyn 2 Ysgol Abercaseg er mwyn eu paratoi at eu hamser yma yn Ysgol Pen-y-bryn. Cafodd y plant weithgaredd Cardiau Cyfateb staff er mwyn adnabod eu henwau, eu hwynebau a'u swyddi. Cawsant weithgaredd Diagram Venn i ddangos beth sy'n debyg ac yn wahanol rhwng y ddwy ysgol ac yna i gloi cawsant weithgaredd Pelen Eira er mwyn dangos beth roeddynt wedi'i ddysgu yn ystod y wers. Roedd plant Abercaseg wedi mwynhau'n fawr ac roedd Mrs Jones yn dweud fod Plant Pesda yn wych!

## Ysgol Rhiwlas

Mae wedi bod yn fis prysur iawn yn ysgol Rhiwlas a'r plant i gyd wedi cael profiadau newydd a rhai bythgofiadwy.

### Pili Palas

Aeth plant yr adran babanod ar daith i Pili Palas i ddysgu sut maent yn datblygu drwy eu cylch bywyd. Cawsant lawer o hwyl yn gwylio'r Meercats a'r anifeiliaid anwes o amgylch y lle.

### Rhyd Ddu

Aeth plant blynyddoedd 5 a 6 ar eu hymweliad blynyddol â Rhyd Ddu. Eleni mi fu'r plant ar daith gerdded o amgylch yr ardal. Y diwrnod canlynol aethant i goedwig Beddgelert i gyfeiriannu cyn cerdded i lawr i'r pentref am hufen iâ a mynd yn ôl i Ryd Ddu ar y trênn. Mi roedd aml i blentyn blinedig iawn yn cyrraedd yn ôl i'r ysgol.

### Cyfeiriannu

Cyn i'r plant fynd i Ryd Ddu, buont yn cystadlu yn erbyn ysgolion eraill y dalgylch yn cyfeiriannu o amgylch Llanberis. Cawsant lawer o hwyl a gwneud yn dda.

### Cymorth Cyntaf

Cafodd plant blynyddoedd 5 a 6 brofiad yn dysgu cymorth cyntaf am fore. Daeth aml yn allan o'r ysgol gyda briwiau hunllefus roeddent wedi eu gwneud yn ystod y bore ond mi wnaethant ddysgu llawer am achub bywyd. Da iawn, blant.

### Snowdon Rocks

Cafodd plant yr ysgol brofiad gwych ddydd Sadwrn 20 Mehefin pan gawsant eu gwahodd i ganu yn y Ganolfan Gwefru fel rhan o ddathliadau "Snowdon Rocks". Roedd plant blynyddoedd 5 a 6 wedi cyfansoddi rap yn arbennig ar gyfer yr achlysur ac roedd pawb wedi mwynhau ei chlywed. Bnawn Gwener cafwyd pnawn coffi yn yr ysgol i godi arian i Awyr Las. Cyflwynwyd y siec i Mike Peters yn ystod y dathlu.

### Ymweliadau â'r ysgol

Mae amryw o bobl wedi ymweld â'r ysgol yn ystod y mis. Daeth Mr Hefin Williams i mewn gyda Mr Alun Ffred Jones AC i

sgwrsio gyda'r plant a rhoi mwy o wybodaeth iddynt am sut mae'r Llywodraeth yn gweithio. Cafwyd amser difyr yn holi a sgwrsio. Bu Mr Williams hefyd i mewn i sgwrsio am y siarter Gymraeg sydd wedi ei sefydlu yn ysgolion y sir a sut mae plant yr ysgol wedi ymrwymo i'r gwaith. Cafodd wybod am gwpan siaradwr gorau'r wythnos gyda'r plant hyn ac am y ddraig fach sydd yn cael mynd adref gydag un o'r plant bach yn ddyddiol am siarad Cymraeg fwyaf. Mae'r ddraig hyd yn oed wedi bod ar wyliau yng Nghaerdydd ac wedi cael trip ar gwch cyflym o amgylch y bae.



Llun o rai o enillwyr ein cystadleuaeth siarter iaith

Mae'r Parch Christina wedi bod atom i roi gwasanaeth wythnosol i'r ysgol gyfan. Bu plant fydd yn cychwyn yn dosbarth meithrin mis Medi i mewn am brynawn er mwyn dod i arfer â'r ysgol a'r plant.

Daeth Steve Wright i mewn am bnawn i sgwrsio gyda'r plant iau am ei waith fel daearegwr. Cafwyd pnawn diddorol iawn.

Ysgol Werdd

Mae plant yr ysgol erbyn hyn wedi llwyddo ar Gam 5 ysgolion gwyrdd, camp nad yw llawer o ysgolion wedi ei chyflawni. Daeth Jên Dafydd i mewn yn ystod y mis i gyflwyno deilen i Gyngor Gwyrdd yr ysgol. Da iawn, blant.



Llun o ddwy o Gyngor Gwyrdd yr ysgol yn derbyn gwobr cam 5 Ysgol Werdd oddi wrth Jên Dafydd

Ffair Haf

Cafwyd ffair haf lwyddiannus iawn eto eleni wedi ei threfnu gan Ffrindiau'r ysgol. Cafodd y plant lawer o hwyl ar y castell neidio a gwlychu ei gilydd yn y "Stocks" er nad oedd llawer o oedolion am fynd i mewn iddynt y tro yma. Gwnaed elw o oddeutu £350. Diolch i bawb a gyfrannodd ac i sawl cwmni am roi gwobrau raffl gwyh.

Llywodraethwyr

Fel ysgol rydym yn cael cyfle i longyfarch Anti Einir ar ddod yn nain am y tro cyntaf. Mae wedi mopio'n lân. Rydym hefyd yn cydymdeimlo gyda Mr Hefin Williams a'i wraig Einir wedi'r brofedigaeth o golli ei dad yng nghyfraith yn ystod y mis.

Ysgol Abercaseg

Sioe Dyffryn Ogwen

Llongyfarchiadau i bawb yn yr ysgol a fu'n cystadlu yn Sioe Dyffryn Ogwen. Cafodd nifer o'r plant lwyddiant mewn gwaith celf a chrefft a hefyd mabolgampau'r sioe.



Dyma lun o'r plant gyda'u gwobrau. Da iawn chi!

Sioe Rala Rwdins.

Fe glywyd sŵn chwerthin mawr yn dod o neuadd yr ysgol un bore Mercher. Roedd sioe Rala Rwdins wedi cyrraedd! Fe gafodd pawb hwyl a sbri yn ymuno yn y gweithgareddau.

Anti Freda

Anfonwn ein dymuniadau gorau am wellhad buan i Anti Freda, glanhawraig yr ysgol, sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

Ffair Haf

Cynhaliwyd ffair haf eto eleni a bu'r plant yn brysur yn creu gwaith celf a chrefft i'w werthu yn y ffair. Diolch yn fawr i bawb am eich cefnogaeth.

Wythnos bwyta'n iach.



Bu sgwad syniadau'r ysgol yn brysur yn meddwl am syniadau gwahanol i hybu bwyta'n iach. Cafodd pawb gyfle i gyfleu eu dymuniadau a phenderfynu gwneud gwahanol weithgareddau fel helpu Anti Marian i wneud "Smoothies" a cebabs ffrwythau, dawnasio a gemau i gael hwyl a chryfhau'r corff. Bu pob dosbarth yn creu murlun i annog pawb i fwyta'n dda a chadw'r corff yn heini. Diolch i bawb am wneud yr wythnos yn un llwyddiannus.

Diolch yn fawr

Fel y gwyddoch mae'r flwyddyn ysgol wedi dod i ben a rhaid ffarwelio â Mrs Ceren Lloyd sydd wedi bod yng ngofal yr ysgol ers mis Medi. Dymuna staff, plant a llywodraethwyr yr ysgol ddiolch o galon iddi am ei gwaith caled a'i charedigrwydd.

## Ysgol Tregarth

### Glan-llyn

Eleni aeth disgyblion blynyddoedd 5 a 6 Ysgol Tregarth i wersyll Glan-llyn am y penwythnos. Cafodd y disgyblion lu o brofiadau cofiadwy yn cynnwys y cwrs rhaffau, dringo wal ac adeiladu rafft. Roedd y mwyafrif yn drist o adael Glan-llyn ond eto yn edrych ymlaen at weld eu teuluoedd ar ôl dwy noson oddi cartref. Ac unwaith eto roedd y bwyd yn fendigedig!

### Croeso

Hoffem groesawu disgybl newydd i Ysgol Tregarth. Mae Cerys wedi ymuno â ni yn nosbarth Llywelyn am hanner tymor olaf y flwyddyn. Mae Cerys wedi setlo'n wych ac wedi gwneud llwyth o ffrindiau newydd. Gobeithio y bydd yn hapus iawn yma.

Croeso cynnes hefyd i Mr Andrew Walton i staff yr ysgol. Mae Mr Walton yn dod atom i ddysgu Blwyddyn 3 dros gyfnod mamolaeth Mrs Mared Gwyn-Jones. Rydym yn siŵr y bydd yn hapus iawn yma.

Pob hwyl i Mrs Mared Gwyn-Jones ar ei chyfnod mamolaeth. Mi fydd y plant a'r staff yn gweld ei cholli.

### Sw Môr, Y Rhyl



Dyma ddisgyblion dosbarth Llywelyn ar ymweliad arbennig â Sw Môr, Y Rhyl. Roedd yr ymweliad yn rhan o'u gwaith ar Y Byd Mawr Crwn gan ganolbwyntio ar wledydd megis St Lucia a'r Caribî. Cafodd pawb amser rhagorol yn dysgu am greaduriaid difyr y môr. Cawsom orffen yr ymweliad ar y traeth yn adeiladu cestyll tywod ffantastig. Ymweliad arbennig i orffen y tymor!

### Ffarwelio

Mae diwedd y tymor yma yn gyfnod o ffarwelio â nifer o staff yr ysgol. Yn dilyn blwyddyn fel cymhorthydd yn Ysgol Tregarth, mae Mr Ifan Dafydd yn ein gadael. Bydd Miss Holly Owen, sy'n dysgu yma ers mis Ionawr, yn cychwyn ar swydd newydd yn Ysgol Pencarnisiog. Bydd Miss Elen Williams sydd wedi bod yn athrawes CPA dros gyfnod hefyd yn ein gadael. Dymunwn yn dda i'r tri ohonynt a diolch iddynt am eu gwaith.

### Sioe Rala Rwdins

Cafodd disgyblion y Cyfnod Sylfaen wledd un prynhawn pan ddaeth cwmni 'Cortyn' draw atom i gynnal sioe bypedau am hanes cymeriadau Gwlad y Rwla. Roedd pawb wedi mwynhau cael gweld y cymeriadau'n dod yn fyw a chymryd rhan yn y sioe – roedd digon o sŵn gweiddi yn llenwi'r neuadd!

### Gypsy Wood

Cafodd disgyblion dosbarth Idwal ymweliad gwych â 'Gypsy Wood' yn ddiweddar. Roedd pawb wedi cyffroi ac roedd hen edrych ymlaen at ein trip. Cafwyd diwrnod gwych yn crwydro, chwarae yn y parc a mwynhau diwrnod braf ar ôl blwyddyn o waith caled. Roedd pawb wedi cael diwrnod grêt a phawb yn blant da.

### Gelli Gyffwrdd

Cafodd dosbarth Tryfan ddiwrnod bendigedig yn Gelli Gyffwrdd. Roedd y diwrnod yn gyfle arbennig i ymlacio a mwynhau'r nifer o atyniadau cyffrous sydd yno. Cafodd pawb amser llawn hwyl yn crwydro'r parc yn yr haul, dyma oedd ffordd braf i dreulio dydd Llun! Llongyfarchiadau i'r plant am ymddwyn mor dda wrth gynrychioli'r ysgol.

### Llanberis a Rheilffordd yr Wyddfa

Aeth criw o ddewrion dosbarth Ffrydlas i fyny'r Wyddfa ar y trên bach ar 24 Mehefin. Er bod y tywydd ar y gwaelod yn addawol, dim ond niwl a gwyntoedd cryfion gafwyd ar y copa. Er hyn, llwyddodd pob un i gyrraedd y copa. Wedi dychwelyd i'r pentref cafwyd picnic a chwis, cyn ymlacio yn y maes chwarae ac ymweld ag ysbyty'r chwarel. Diwrnod hwyliog a phrysur, a goronwyd gan y nifer o bobl o bob rhan

o'r byd ddaeth atom i ganmol ymddygiad ardderchog y plant. Mae'r ysgol yn falch iawn ohonoch.

### Ymweliad gan Ed Holden - Mr Phormula

Cafodd disgyblion yr adran Iau dipyn o sioc pan ddaeth Ed Holden neu Mr Phormula, y bit bocsiwr enwog i'w dosbarth yn ddiweddar. Bu'n trafod sut y daeth i fod yn fit bocsiwr proffesiynol ac wrth gwrs roedd digon o gyfleoedd i'r disgyblion gymryd rhan a rhoi cynnig ar ambell sain. Ar ôl tipyn o ymarfer aeth y plant ati i greu rap gyda help Mr Phormula. Cafodd y plant andros o hwyl a phwy a wŷr, efallai bod bit bocswyr y dyfodol yn eu plith.

### Ymweliad â Nant Bwlch yr Haearn

Fel trip diwedd blwyddyn, penderfynodd y disgyblion yr hoffent wneud rhyw fath o weithgareddau anturus felly trefnwyd ymweliad â Nant Bwlch yr Haearn ger Llanrwst. Bu'r disgyblion yn canwio, cerdded afon, cyfeiriannu a chael cyfle ar y cwrs rhaffau uchel. Roedd hi'n ddiwrnod ardderchog a phawb wedi mwynhau.

## Ysgol Llandygái

### Pob Dymuniad Da

Dymuna staff a disgyblion yr ysgol ddymuno yn dda i Mrs Caroline Hughes yn ei swydd newydd fel Prifathrawes Ysgol Gynradd Y Felinheli. Hefyd, pob dymuniad da i Miss Lois Williams, athrawes Blynyddoedd 4 a 5, fydd yn dechrau yn ei swydd newydd fel athrawes yn Ysgol Rhosybol ym mis Medi. Diolch hefyd i Miss Kerry Campbell a phob dymuniad da iddi hithau.

### Trip Sw Môr

Aeth Dosbarth Gwawr am Sir Fôn yn ddiweddar i ddysgu am fywyd y môr fel rhan o thema'r tymor. Cafodd pawb amser da a daethant yn ôl i'r ysgol wedi dysgu llawer o ffeithiau newydd am bysgod a chreaduriaid y môr.

### Trip Coed y Sipsi

Aeth disgyblion Dosbarth Enfys ar drip i Goed y Sipsi yn ddiweddar. Cawsant gyfle i fwynhau yn yr heulwen, cael picnic a phrynu anrheg yn y siop. Diwrnod da!

### Trip Plas Menai

Gwlychu fu hanes disgyblion Blwyddyn 5 tra'n treulio dau ddiwrnod ym Mhlas Menai. Cawsant lawer o hwyl yn dysgu a datblygu sgiliau dŵr.

### Llwyddiant mewn twrnameintiau

**Criced** – ennill tlws am fod y tîm mwyaf addawol yn nhwrnamaint

Ysgolion Bangor

**Pêl-droed** - tîm y merched yn ennill twrnamaint Ysgolion Bangor

Hefyd bu i dîm o'r ysgol gymryd rhan yn nhwrnamaint tennis ysgolion Bangor

Llongyfarchiadau i bob disgybl gymerodd ran yn y twrnameintiau. Roedd ymddygiad y disgyblion i'w ganmol ym mhob twrnamaint.

### Eisteddfod Ryngwladol Llangollen

Mae disgyblion blynyddoedd 5 a 6 yn edrych ymlaen at eu trip i'r Eisteddfod ar 'Ddiwrnod y Plant'. Bydd yn wledd i'r llygad a'r glust ac yn ymestyn dealltwriaeth y disgyblion o draddodiadau gwahanol wledydd. Mwynhewch!

### Ymweliad Glan-llyn

Aeth criw bach o ddisgyblion i dreulio'r penwythnos yng Ngwersyll yr Urdd, Glan-llyn yn ddiweddar. Cawsant amser da ac roedd y bwyd yn flasu fel arfer. Roedd digonedd o weithgareddau cyffrous wedi cael eu paratoi ar eu cyfer.

### Diwrnod Sgiliau

Bu Blwyddyn 5 yn ymweld ag Ysgol Friars ac Ysgol Tryfan yn ddiweddar. Cyfle oedd hwn i ddatblygu sgiliau newydd ym mhob agwedd o'r cwricwlwm.

### Little Shop of Horrors

Bydd disgyblion Blwyddyn 6 yn perfformio'r sioe Little Shop of Horrors gyda disgyblion Ysgol Friars. Cyfle cyffrous iawn i fagu hyder ynghyd â dod i adnabod disgyblion a rhai o athrawon yr Ysgol Uwchradd.

### Gwirfoddolwyr Darllen

Diolch i'r holl wirfoddolwyr darllen sydd yn dod i'r ysgol yn wythnosol i ddarllen a thrafod llyfrau gyda disgyblion Blynyddoedd 2 i 6. Rydym yn gwerthfawrogi eich amser a'ch ymroddiad. Pob dymuniad da i Mr Richard Lloyd Jones ar ôl ei lawdriniaeth ddiweddar.

### Dawns Ffarwel Blwyddyn 6

Diolch i'r Gymdeithas Rieni ac Athrawon am baratoi dawns diwedd cyfnod i ddisgyblion Blwyddyn 6 yng Nghastell Penrhyn. Roedd pob disgybl yn edrych yn hynod o smart yn eu dillad newydd. Brenin y ddawns oedd Jamie Pennington a brenhines y ddawns oedd Ellen Rodgers.

### Eisteddfod Ysgol Llandygai

Rydym yn edrych ymlaen unwaith eto at Eisteddfod yr Ysgol. Yn beirmiadu'r cynnyrch llenyddol eleni fydd Mr Ieuan Wyn a bydd pob disgybl yn yr ysgol yn uno i ddathlu yn llwyddiant bachgen neu ferch o flwyddyn 6 fydd yn derbyn cadair fechan am y gwaith ysgrifenedig gorau. Hefyd, bydd genethod Blynyddoedd 1 a 2 yn dawnsio a byddwn yn croesawu disgybl o Ysgol Tryfan i ddod i ganu'r corn gwlad. Mae hwn yn ddigwyddiad pwysig yng nghalendr yr ysgol.



## Ysgol Bodfeurig

**Ymweliad â Sw Mynydd Bae Colwyn**  
Fel ymweliad diwedd tymor aeth dosbarth Idwal a dosbarth Tryfan i'r Sw ym Mae Colwyn. Cafodd pawb ddiwrnod arbennig ymysg y mwncïod, y pengwiniad, y teigr, y crocodeilod a llawer mwy. Un o uchafbwyntiau'r dydd oedd gweld sioe'r adar, y pengwiniad a'r morlo.



Dyma blant dosbarth Tryfan ar yr ymweliad

### Ymweliad â Chanolfan Amgylcheddol Nant Bwlch yr Haearn



Ymweliad tra gwahanol gafodd plant hynaf yr ysgol wrth iddynt fynd am ddiwrnod llawn antur i Nant Bwlch yr Haearn. Un bore cyffrous roedd blynyddoedd 4, 5 a 6 ysgolion Tregarth a Bodfeurig ar fws ar eu ffordd i Nant Bwlch Yr Haearn. Cafodd Bodfeurig wneud cerdded afon gyntaf, roedd hi mor oer doedd Sunny ddim yn gallu teimlo ei fysedd.

Ar ôl i ni gerdded afon cerddom ni i chwilio am y caiacs. Neidiodd pawb i mewn i'r caiacs a dechrau padlo i lawr y llyn tuag at y bws mini. Newidiodd i'n dillad glân ac eisteddom ar y cae pêl-droed i fwyta ein brechdanau. Ar ôl cinio cawsom wneud cwrs rhaffau uchel ac yna cyfeiriannu. Roedd pawb wedi blino'n lân erbyn diwedd y diwrnod – dyma'r trip gorau erioed!

Obie, Blwyddyn 6

### Gweithio gydag artist

Mae dosbarth Ogwen wedi cael y pleser yn ddiweddar o weithio gyda'r artist lleol, Anna Pritchard. Cafodd pawb brofiad gwych yn creu gwaith celf ar y thema 'idiomau'. Mae'r gwaith bellach wedi ei arddangos yn yr ysgol ac mae'r plant yn falch iawn o'u campwaith.

## Ysgol Llanllechid

**Babi newydd**  
Llongyfarchiadau gwresog i Ms Angharad a Mr Elfed Williams ar enedigaeth Steffan Gwern. Mae'n siŵr bod Tomos Jac a Philip, y ddau frawd mawr, wrth eu boddau!

**Gwella**  
Braf yw cael dweud bod Miss Haf yn parhau i wella ar ôl ei llawdriniaeth, a bod Mr Rhys Parry Owen hefyd yn gwella ar ôl ei gyfnod yntau yn yr ysbyty. Cofion cynnes atoch eich dau.

**Croeso'n ôl**  
Croeso'n ôl i Mrs Davies Jones yn dilyn ei hymweliad â'r India, a godre mynyddoedd yr Himalaya.

**Mabolgampau**  
Diolch i'r rhieni a ddaeth i'n cefnogi ym Mabolgampau'r Cyfnod Sylfaen a'r Adran Iau. Roedd y plant ar eu gorau! Diolch yn fawr i Mr a Mrs Scott, perchnogion Siop y Post, Rachub am roi poteli dŵr i'r plant.

### Yr Wyddfa



Cyrhaeddodd Bl6 gopa'r Wyddfa mewn dwy awr a thri chwarter. Cafwyd tywydd braf ac roedd pawb yn falch o fod wedi cyflawni'r her yn llwyddiannus. Diolch yn fawr i Cemlyn a Morfudd am ein tywys yn ddiogel ac i Stephen Jones, Rhian Jones a Gwen Swann am eu gofal trylwyr o'r disgyblion.

**Bonjour o Fl 6**  
Rydym wrthi'n dysgu Ffrangeg fel fflamia i baratoi at Ysgol Dyffryn Ogwen, gan ffarwelio ag Ysgol Llanllechid wrth ddweud "Au revoir et merci beaucoup!"

**Cwpan y Byd**  
Cafodd Blwyddyn 4 gyfle i weld Cwpan Rygbi'r Byd yn cael ei arddangos. Cawsant dynnu eu lluniau gyda'r cwpan ac â'r cyn-chwaraewr, Rupert Moon. Cawsant hefyd ymarfer eu sgiliau gydag aelodau o dim rygbi Bethesda! Diolch i gôr Ysgol Dyffryn Ogwen am yr adloniant.

**Croesawu Rhieni a'n Disgyblion Newydd**  
Braint oedd croesawu ein plantos bach newydd a'u rheini i'r ysgol. Edrychwn ymlaen at gael gweithio efo chi mewn partneriaeth lwyddiannus o fis Medi ymlaen.

**Blasu Bwyd Môr**  
Cafodd dosbarth Mrs Parry-Owen wledd go iawn un bore, pan ddaeth Rachel a Dylan draw o brosiect F.L.A.G i sôn am bysgota cynaliadwy. Ar ôl dysgu am or-bysgota a llygredd, cafodd pawb flasw bwyd môr wedi ei goginio yn y dosbarth!

**Diwrnod Brasil**  
Cafodd dosbarth Mrs Rona Williams ddiwrnod Carnifal Brasil yn yr ysgol, pan gafodd pawb y cyfle i wisgo wisgoedd lliwgar fel pobl carnifal Rio! Roeddent i gyd wedi gwneud mygydau, ac yn cael gwledda ar fwydydd egsotig! Bu dawnio brwd, chwarae offerynnau soniarus a chafwyd cyfle i efelychu gwaith celf lliwgar yr artist Romero Britto. Diwrnod ardderchog!


**Diwrnod Tsieineaidd**  
Cafodd plant y Dosbarth Meithrin hwyl yn creu crefftâu Tsieineaidd yn eu gwisgoedd traddodiadol.

**Bl 3 Bwyty Groegaidd**  
Cafodd dosbarth Mrs Bethan Jones brynhawn bendigedig yn dysgu am wlad Groeg. Cafwyd croeso twymgalon gan berchnogion y Bwyty Groegaidd ym Mangor Uchaf. Roeddent wedi paratoi gwledd o fwyd Groegaidd i ni! Bu pawb yn dysgu ychydig o'r iaith a holwyd cwestiynau am y wlad. Cyn ffarwelio, dysgwyd dawnio Roegaidd ac wrth gwrw roedd rhaid taflu ambell blât!

**Bl2 Coedwig**  
Roedd diwrnod diddorol wedi ei drefnu gan Ymddiriedolaeth Rheilffordd Llanberis ar gyfer dosbarth Mrs Parry-Owen. Taith, stori ar y trên, cwis a thaith gerdded dan arweiniad Mr Osbourne Jones. Cawsom ddysgu am y planhigion meddyginiaethol sydd i'w gweld o'n cwmpas. Dysgwyd hefyd am ynni'r dŵr a pheirianneg yr hen chwarel, yr inclein ac olwyn Blondin. Diwrnod rhyfeddol!

**Sw Môr**  
Aeth disgyblion y Dosbarth Derbyn i Sw Môr Môn ym Mrynsiencyn, cyn cael prynhawn delfrydol ar draeth Benllech. Diolch yn fawr i Mr Derfel Owen am ei wasanaeth di-flino.

### Sioe Amaethyddol



Llongyfarchiadau i'r holl blant a gafodd lwyddiant yn Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen.

Llongyfarchiadau arbennig i Ceirion Jones, Blwyddyn 1 a enillodd Gwpan Wendy Eccles am y llun gorau yn yr holl sioe! Da iawn ti Ceirion – llun hyfryd o'r glöyn byw!

**Parhad dros y dudalen**



## Ysgol Llanllechid (parhad)

### Criced

Cafodd tîm criced blwyddyn 4 gêm gystadleuol a chyfartal yn erbyn Ysgol y Garnedd. Yna daeth tîm y bechgyn hŷn yn ail yn y twrnament dalgylchol, tra'r aeth tîm y merched un cam ymhellach gan ennill y rownd derfynol. Ymlaen â'r merched i Bwllheli wedyn lle cafwyd llwyddiant pellach. Llongyfarchiadau i'r cwbl a diolch i Mr Stephen Jones am hyfforddi'r chwaraewyr i safon mor ragorol. Diolch hefyd i Mrs Fiona Cadwaladr am ei chymorth parod.

### Cynllunwyr y dyfodol?

Mae disgyblion blynyddoedd 4 a 5 wedi bod yn brysur yn creu reidiau ffair ym maes Dylunio a Thechnoleg a bu'r disgyblion yn brysur yn torri, llifio, uno, cysylltu'r gwifrau i greu cylchedau a pheintio. Roedd yn dda gweld y cwbl yn troelli'n llwyddiannus.

### Cwm Idwal

Cafodd disgyblion Dosbarth Mr Stephen Jones daith gerdded drwy Ddyffryn Ogwen dan arweiniad Mr Cemlyn Jones a Mrs Morfudd Thomas. Ar ddiwrnod hyfryd cafwyd cyfle i werthfawrogi eu hardal ar ei gorau.

### Ymwelwyr o Canada a Chyngerdd

#### Cerddoriaeth Glasurol

Croesawyd ffrindiau o Canada i'r ysgol ynghyd â'u tywysydd lleol Mr Idwal Jones. Roedd y merched yn llawn hanesion ac roedd y drafodaeth o gymharu dau ddiwylliant gwahanol yn hynod ddiddorol. Cafwyd gwledd gerddorol yn y neuadd, wedi ei threfnu gan ddwy athrawes offerynnol, sef Ms Sioned Webb a Ms Nicki Pearce.

### Mr Arwyn Oliver

Braint ac anrhydedd oedd cael y cyfle i groesawu cyn-bennaeth Ysgol Llanllechid, Mr Arwyn Oliver, i'n plith. Cafwyd amser gwerth chweil yn ei gwmni yn dysgu am ei daith i wersyll yng nghysgod mynydd Everest yn Nepal. Diolch, Mr Oliver a brysiwch draw i'n gweld eto'n fuan!

### Athletau'r Urdd

Bu aelodau'r Urdd yn cystadlu ar lefel Cylch a Sir yn Nhreborth. Cafodd nifer o'r disgyblion lwyddiant. Diolch i Mr Stephen Jones am hyfforddi a goruchwyllo'r plant.

### Noson Talentaau Lleol

Cawsom wahoddiad i gymryd rhan yn y noson hon yng Nghlwb Criced a Bowlio Bethesda. Canodd y côr yn llawn afiaith, a chafwyd perfformiadau unigol arbennig gan Efa Glain Jones a Cerys Elen. Diolch i Mr Huw Edward Jones ac i Mr Derfel Roberts am y gwahoddiad.

### Cyngor yr Ysgol

Daeth cynrychiolaeth dda o Gyngor yr Ysgol i drafod eu gwaith gyda'r Llywodraethwyr. Mae gerddi'r ysgol yn ffynnu a chawsant ganmoliaeth am drefnu'r diwrnod 'Gwyllt a Gwallgo' i godi arian at dynged yr eliffant yn yr Affrig, a drefnwyd ar y cyd gyda dosbarth Mrs Marian Jones.

### Gwyliau Haf

Dymuniadau gorau dros yr haf: fe'ch gwelwn yn ôl yn yr ysgol ar Fedi'r ail.

Ar Werth

TÂN NWY  
Paragon 2000 Slide

Pris Rhesymol  
(i'w roi at Elusen Ymchwil Cancr)  
Ffôn: 01248 601084

## Nyth y Gân

Mae'n dda cael croesawu Dafydd Morris yn ôl i'r 'Nyth'. Rydym yn siŵr y bydd darllenwyr y golofn yn falch ei fod wedi ailgydio yn y cyfansoddi yn dilyn llawdriniaeth fawr yn ddiweddar. Dymunwn adferiad llwyr a buan iddo.

Mae Dafydd am fanteisio ar y cyfle i ddiolch i bawb am bob dymuniad da a dderbyniodd pan oedd yn yr ysbyty ac wedi hynny.

### Y Pedwar Tymor

Croeso a gafodd gennym  
Ar ôl y disgwyl hir,  
A glasu y mae'r gwrychoedd  
Yn union fel y tir.

Mor braf yw gweld y tyfiant  
Yn lledu drwy yr ardd,  
A'r adar wrthi'n canu  
Gan wneud pob man mor hardd.

Mae lliwiau mor ardderchog  
Yn dod hyd ddail y coed,  
A'u bwrw ar y ddaear  
A gânt mewn ifanc oed.

Mae'r cyfan 'nawr yn cysgu,  
Mor dawel yw pob man;  
A'r pedwar tymor lwyddodd  
I fedru gwneud eu rhan.

### Y Chwarelwr a'r Garreg

Fe gurai ef y garreg i'w gynnal  
Yn ddi-gŵyn drwy'r adeg;  
Er ei dal yn ara' deg  
Ni roddodd yr un frawddeg.

### Yr Afon

Daw nifer o bethau i'n meddwl yn siŵr  
Wrth inni sefyllian am hir uwch y dŵr,  
Fe welwn y pyllau mor ddyfn ac mor lân  
A cherrig eu gwely yn loyw a mân.

Newidia yr afon ei chân ambell waith  
A'i lliw fydd yn cochi pan fydd ar ei thaith;  
Un gref, benderfynol, ddi-derfyn yw hi  
A'n denu bob amser mae'i glannau a'i lli.

Fe gawn ni ein tynnu i'w hymyl o hyd  
I edrych a gwrando ar synau y byd;  
Mor nerthol eu bwrllwm mewn ceunant bach llwm  
Yn ateb ei gilydd hyd loriau y cwm.

Dafydd Morris

## Côr Meibion y Penrhyn

### Cyngerdd ysgubol gyda Band Black Dyke

Ar nos Sadwrn braf yn hanner olaf Mis Mehefin bu'r côr yn dathlu deng mlwyddiant o dan faton Owain Arwel, trwy gynnal cyngerdd gyda'r band pres gorau yn y byd o flaen cynulleidfa o dros 1,200 yn Venue Cymru, Llandudno. Roedd hon yn noson wirioneddol nodedig a'r gymeradwyaeth i bob cyflwyniad gan y band a'r côr fel ei gilydd yn fyddarol.

Siaradodd rhai aelodau o'r côr gyda nifer o'r gynulleidfa ar ôl y perfformiad ac ymateb pawb yn ddiwahân oedd canmol pob agwedd ar yr adloniant a gyflwynwyd, gan nodi'n arbennig pa mor wahanol i gyngherddau arferol corau meibion oedd y noson hon.

### "Rhagorol"

"Roedd cael cwmni band mor wych a chôr sy'n ymdrechu i greu adloniant yn hytrach na bodloni ar ganu mewn rhesi stond yn amheuthun," meddai Mrs Ellen Wyn Jones o Dreffynnon. Dywedodd gŵr o'r enw Jim Naughton o Swydd Derby, "Dyma'r tro cyntaf erioed i mi glywed côr mor rhagorol yn cyd-berfformio gyda band pres," cyn ychwanegu "roedd yr holl brofiad yn werth pob ceiniog o'r £20 a delais am docyn ac mi hoffwn i glywed y côr hwn yn canu eto'n fuan".

Roedd Maldwyn Pritchard a Dafydd Jones Morris sy'n canu gyda'r adran fas yn ecstatig wedi'r perfformiad. "Dydan ni erioed wedi cael cymaint o bobl yn dod aton ni ar ôl cyngerdd eisiau ein llongyfarch ni," meddai Maldwyn a dywedodd Dafydd bod mwy o CDs y côr wedi cael eu gwerthu ar y noson nag y buasai unrhyw un yn ei gredu.

### Menter fawr

Bu hon yn fenter anferthol i Gôr y Penrhyn gyda chostau enfawr yn ein hwynebu ond diolch i'r holl waith marchnata a gwerthu a wnaed gan sawl aelod fe lwyddodd y noson i dalu ar ei chanfed. Diolch yn arbennig i Arwel a Fran ac i bawb a weithiodd mor galed i sicrhau llwyddiant y fenter. Yma, dylid enwi rhai fel Alun Davies am ei holl waith diflino yn eostio'r aelodau gyda gwybodaeth ac yn eu hannog i ddyblu eu hymdrechion. Bu hefyd yn gyfrifol am gynllunio a dylunio posteri a chreu rhaglen ar gyfer y noson. Diolch hefyd i Walter Williams am ei drylwyredd a'i waith caled gyda'r ochr werthiant. Mae aelodau fel hyn yn amhrisiadwy i lwyddiant y côr a gobeithio y bydd y rhai nad ydynt yn cael eu henwi yma yn derbyn ein diolchiadau diffuant am eu cyfraniadau hwythau.

## Côr Rygbi Gogledd Cymru



Mae sawl aelod o'r Côr yn lleol i Fethesda a'r ardal, a chafwyd noson lwyddiannus iawn yn y Gadeirlan yn Llanellwyr yn ddiweddar, gyda Chyngerdd y Cofio, Langemark 2014 yn cael ei ail-berfformio.

Fel y gwyddom, cafodd nifer o hogiau lleol eu hanafu neu eu lladd yn ystod y Rhyfel Mawr, ac yn dilyn ymgyrch genedlaethol, gyda'r Côr yn gweithio yn galed iawn i godi arian drwy gynnal cyngerddau ac ati, llwyddwyd i gael cofeb barhaol i'r Cymry yn Langemark, Fflandrys.

Ymysg y rhai oedd yn cymryd rhan yn y cyngerdd oedd Dilwyn Morgan (Arweinydd), Rhys Meirion (Tenor), Dylan Cernyw ar y delyn a bachgen o Rachub, sef Gwydion Rhys ar y sielo.



Gwydion Rhys ar y soddgrwth



### Siop Trin Gwallt a Harddwch

**Bethesda 600094**

Yn arbenigo mewn trin gwallt  
merched, dynion a phlant.  
Cynghori, gosod a thorri wigiau  
Rhai gwasanaethau harddwch a shafio  
(rasal "cut throat")

### DAFYDD CADWALADR

#### Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr  
Ysglodion pren i'r ardd  
Ffensio a thorri coed  
Asiant system gwresogi trwy  
losgi coed

**01248 605207**

Pob math o waith trydanol

### Huw Jones

#### Ymgymwr Trydanol

Trydanwr cymwysedig gyda  
phrofiad diwydiannol

Y Wern, Gerlan, Bethesda  
Gwynedd LL57 3ST  
**Ffôn: 01248 602480**

### L. Sturrs

**a'i feibion**

sefydlwyd yn 1965

### ADEILADWYR

Hen Iard Stesion,  
Ffordd y Stesion, Bethesda

**Ffôn: 600953**

[lsturrs@googlemail.com](mailto:lsturrs@googlemail.com)

### Y Douglas Arms

\* Lluniaeth i Bartïon \* Te Cynhebrwng \*  
\* Gardd Gwrw \* Te a Choffi \*  
**Oriau Agor**  
Llun - Gwener: 6.00 - 11.00  
Sadwrn: 3.30 - 12.00  
Sul: Pnawn 1.00 - 4.00, Hwyr 8.00 - 11.00  
**01248 600219**  
[www.douglas-arms-bethesda](http://www.douglas-arms-bethesda)  
Cewch groeso cynnes gan  
Gwyn a Christine

### Gareth Williams

Trefnydd Angladdau

**Crud yr Awel**  
**1 Ffordd Garneddwen**  
**Bethesda**

**Ffôn: (01248) 600763 a 602707**  
**GWASANAETH DYDD A NOS**

### Oriel Cwm

Cwm y Glo, Caernarfon

Gwasanaeth fframio lluniau o  
bob math ar gael ar y safle  
Prisiau rhesymol  
Arddangosfa gan artistiaid lleol

Ffôn / Ffacs 01286 870882

RICHARD S. HUMPHREYS



### Malinda Hayward

(Gwniadwraig)

**Awel Deg**  
**Penygroes, Tregarth.**

**Am unrhyw waith gwnïo**  
**- trwsio, altro ac ati -**

**Ffoniwch**  
**01248 601164**

### CAFFI COED Y BRENIN

1 Rhes Buddug, Bethesda

**Ffôn: 01248 602550**

[karena@agoriad.org.uk](mailto:karena@agoriad.org.uk)

**Bwyd cartref blasus**  
**(mewn awyrgylch cyfeillgar)**

**Cinio arbennig bob dydd Iau**

**Bwyd i'w gario allan**

**Gwasanaeth arlwyio ar gyfer**  
**partïon o bob math -**  
**plant, pen-blwydd ac ati**  
*(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)*

**Cacennau ar gyfer pob achlysur**  
**e.e. priodas neu ben-blwydd**

**Prisiau rhesymol**

### BISTRO'R BRENIN

**(Bwyty Trwyddedig)**

Rydym yn croesawu partïon  
o bob math - dathlu pen-blwydd  
ac achlysuron arbennig eraill.  
Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i

**Londri Coed y Brenin**  
wneud eich golchi

### Londis Bethesda

☎ 01248 605566

**Archfarchnad hwylus**

**Gwasanaeth personol**

**gyda'r pwyslais ar y cwsmer**

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy

**Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr**  
**7 diwrnod yr wythnos**

### JOHN ROBERTS

**Paentiwr**

**Papurwr**

**Teilsiw**



**Symudol: 07747 628650**

**Ffôn: 01248 600995**

# C.L. JONES

**Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu**

Bethesda 01248 600045

Caernarfon 01286 676070

Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol

Stoc helaeth ac amrywiol

Croeso i gyfrifon masnachol

Staff cyfeillgar a phroffesiynol

**Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y**

Mynytho 01758 730768

LLanrwst 01492 640794

Siop yn 01492 640794

Llanrwst

**Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni**

CHWARAEON

WU SHU KWAN

Melanie yn Diolch



Fy enw yw Melanie Neville, ac yn y lle cyntaf hoffwn ddiolch i fy hyfforddwyr yn y dosbarth yn Nhregarth, sef Jake ac Elena Fitzpatrick. Rwy'n ei chyfrif yn ffrind fy mod wedi derbyn gradd y "black belt" dan oruchwyliath y Grand Master C.K. Chang. Mae Wu Shu Kwan yn gelfyddyd sydd yn cynnig system hyfforddi cyflawn sydd yn fuddiol i'r corff a'r meddwl. Cymerodd 6 blynedd oedd yn gofyn am benderfyniad a hunanddisgyblaeth gennyf, gan herio fy hun yn gorfforol a meddyliol er mwyn cyrraedd fy nod. Byddwn yn annog unrhyw un i ymuno â dosbarth Wu Shu Kwan. Cewch gyfle i ddysgu am yr hen gelfyddyd yn ogystal â dod yn ffrind yn gorfforol mewn awyrgylch gyfeillgar o dan arweiniad gofalus hyfforddwyr sydd â chymwysterau llawn. Am ddosbarth yn agos atoch, ymwelwch â'r wefan [www.wushukwan.com](http://www.wushukwan.com)

DOMINOS

Cystadleuaeth Dominos  
Tafarndai Dyffryn Ogwen 2014-15

Enillwyr y gynghrair am eleni oedd Tîm Bull 'A' o dan arweinyddiaeth eu capten, Bryn Evans, ac yn ail yn y gynghrair daeth Tîm Bull 'B' yn cael eu harwain gan eu capten, Robert Temple Morris. Pen y Brenin, o dan gapteniaeth Dewi Morris, enillodd y cwpan yn y gêm derfynol, pan drechwyd tîm y Bull ganddynt o 4-3.

Enillydd y gemau sengl oedd Dewi Roberts, a gurodd Dafydd Jones yn y gêm derfynol.

Yng ngêm derfynol y gemau dwbl aeth y brif wobwr i Mr Dewi Morris a Mr Ron Thomas pan lwyddodd y ddau i drechu Mr Dafydd E Prichard a Mr Griff Williams.

Cipiwyd y tlws teilyngdod (merit) am y tymor gan Mr Peter Jones.

Cafwyd munud o dawelwch i gofio am Mr Billy (Campbell) Williams a fu farw ychydig ddyddiau cyn y gemau terfynol a bydd pawb yn teimlo chwithdod mawr o'i golli.

Diolchodd Mr R B Owen i bawb am gyfrannu tuag at dymor llwyddiannus arall a llongyfarchodd y rhai a fu'n fuddugol yn y gwahanol gystadlaethau. Roedd yn gwerthfawrogi ymdrechion y chwaraewyr i gadw arfer y "Dominos Nos Fawrth" i fynd.

"Yn bersonol, dw i'n mwynhau'r achlysur," meddai, "a dw i'n gobeithio fod pawb yn teimlo'r un fath."

I gloi, apeliodd ar i bawb geisio denu chwaraewyr ifanc newydd er mwyn sicrhau dyfodol y noson wythnosol hon o chwarae a chystadlu brwd mewn awyrgylch gyfeillgar.

Rygbi



Dylan Owen yn derbyn Tlws y Cadeirydd gan Tony Parry, Cadeirydd y Clwb Rygbi



Jarred Mitchell a ddyfarnwyd yn Chwaraewr y Flwyddyn i Dîm Cyntaf Clwb Rygbi Bethesda

Yn dilyn Sioe Dyffryn Ogwen ar y caeau rygbi cynhaliwyd Noson y Capten yn y Clwb Rygbi. Noson i ddathlu diwedd y tymor ydi hon ac amser i'r chwaraewyr edrych yn ôl ar yr hyn a fu ar gaeau rygbi Gogledd Cymru. Mae'n noson hefyd i ddewis enillwyr y gwahanol adrannau drwy bleidlais y chwaraewyr a'r hyfforddwyr.

Diolchodd Capten y Clwb, Iwan Williams i bawb a fu'n gweithio'n galed ar y cae ac oddi arno yn ystod y tymor a aeth heibio.

Jared Mitchell ddyfarnwyd yn Chwaraewr y Flwyddyn gan y chwaraewyr eraill a fo hefyd oedd chwaraewr mwyaf dylanwadol y clwb ar y cae ac ar y maes hyfforddi.

Aaron Roberts ydi'r chwaraewr sydd wedi dangos y cynnydd mwyaf dros y tymor a Daniel Pritchard y chwaraewr mwyaf addawol.

Dyfarnwyd cais y prop Gethin Owen yn erbyn COBRA yn Gais y Tymor.

Gethin Harper ddyfarnwyd yn Chwaraewr y Flwyddyn i'r Tîm Ieuenctid.

Mathew Evans oedd y chwaraewr mwyaf addawol i'r Tîm Ieuenctid a Siôn Ifan Roberts dderbyniodd Tlws yr Hyfforddwyr am ei gymorth dros y tymor.

Dylan Owen dderbyniodd Tlws y Cadeirydd am ei wasanaeth i'r Tîm Cyntaf dros y blyneddoddd.

Llongyfarchiadau iddyn nhw i gyd a gweddill y chwaraewyr am eu hymdrechion dros y tymor.

Gofynnodd yr hyfforddwyr, Graham Davies a Siôn Owain, i'r chwaraewyr roi mwy fyth o ymdrech ar y maes ymarfer er mwyn sicrhau canlyniadau gwell y tymor nesaf.



Gethin Harper a ddyfarnwyd yn Chwaraewr y Flwyddyn i Dîm Rygbi Ieuenctid Bethesda.



Mr Dewi Roberts, enillydd y gystadleuaeth i unigolion, yn cael ei longyfarch gan Mr R B Owen, Cadeirydd y gymdeithas



Mr Ron Williams a Mr Dewi Roberts, enillwyr y gemau dwbl.



Mr Bryn Evans, capten Bull "A" yn derbyn tlws am ennill y bencampwriaeth eleni



Mr Dewi Morris, capten Tîm Cwpan Pen y Brenin a enillodd gystadleuaeth y cwpan gyda Mr R B Owen